Arolygiaeth Prawf EF

# Arolygiaeth Prawf EF

## Adroddiad Blynyddol 2022/2023

Arolygiaeth Prawf EF

## Gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid o safon uchel sy'n newid bywydau pobl er gwell

Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gosod y safonau sy'n bwrw golwg ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, adolygiadau, ymchwil a chynhyrchion arfer effeithiol yn darparu barnau ac arweiniad awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Defnyddiwn ein llais i ysgogi newid i'r system, gyda ffocws ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion ac i gymunedau.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Russell Webster (ymgynghorydd annibynnol) ac Arolygiaeth Prawf EF.

## Cynnwys


**Ffeithiau allweddol 5**
**Rhagair y Prif Arolygydd 6**
**Cyflwyniad 11**
**Pennod 1: Canfyddiadau o'n harolygiadau lleol 12**
Sgorau 12
Arweinyddiaeth a darpariaeth sefydliadol 13
Gwaith llys 15
Casgliad 16
**Pennod 2: Staffio 17**
Lefelau Staffio 18
**Recriwtio** 19
**Cadw** 19
**Salwch** 19
Y profiad ar lawr gwlad 19
Llwyth gwaith 20
Goruchwyliaeth 23
**Casgliad 24**
**Pennod 3: Anghenion pobl ar brawf 25**
Cyflwyniad 25
Asesu a chyflawni anghenion 25
Anghenion yn ôl rhyw 26
Anghenion yn ôl ethnigrwydd 26
Canlyniadau 28
**Canlyniadau llety** 30
**Canlyniadau cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg** 30
**Dirywiad mewn perfformiad o ran cyflawni anghenion** 30
Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir 31
Gwaith di-dâl 31
Rhaglenni achrededig 32
Safbwyntiau pobl ar brawf 33
**Mynediad at wasanaethau prawf** 34
**Mynediad at wasanaethau** 35
**Safbwyntiau ar oruchwyliaeth** 36
**Cyd-gynhyrchu** 37
**Pennod 4: Diogelu'r cyhoedd a'r risg o niwed 38**

Asesu, Diogelu a Newid 38
Risg o niwed difrifol 38
Asesu risg 38
Troseddau Difrifol Pellach 40
Dysgu o'r adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach diweddar 41
**Troseddau Difrifol Pellach Jordan McSweeney** 42
**Yr hyn a ddysgwyd** 43
Trefniadau thematig amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd 44
**Lefelau a chategorïau Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd** 44
Arolygiad thematig cam-drin domestig 45
Arolygiad thematig troseddwyr y Ddeddf Terfysgaeth 46
Dioddefwyr 47
**Pennod 5: Ailsefydlu 49**
Cyflwyniad 49
Beth yw ailsefydliad da? 49
Canfyddiadau ein harolygiadau lleol 49
Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa 51
**Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa cyn eu rhyddhau** 51
**Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ar ôl eu rhyddhau** 53
Casgliad 54
**Atodiad 1: Arolygiadau o wasanaethau 55**
Y broses arolygu 55
**Adolygiad rhanbarthol** 55
**Cyflawni sefydliadol Unedau Cyflawni Prawf (maes un)** 55
**Goruchwylio achosion Unedau Cyflawni Prawf (Maes dau)** 55
Model goruchwylio achosion ASPIRE 55
Y sgorau 56
**Atodiad 2: Cyhoeddiadau 60**
Arolygiadau thematig 60
Troseddau Difrifol Pellach 60
Mewnwelediadau Academaidd 60
Bwletinau Ymchwil a Dadansoddi 61
Canllawiau arfer effeithiol 61
**Atodiad 3 - Prif brosesau rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC) 62**
**Atodiad 4 - Data cyfanredol 64**

*Nodwch ein bod wedi newid yr enwau yn yr enghreifftiau ymarfer drwy'r adroddiad cyfan er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolyn.*

© Hawlfraint y Goron 2023

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfon e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation


Cyhoeddwyd gan:

HM Inspectorate of Probation
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX
Dilynwch ni ar Twitter

@hmiprobation

# Ffeithiau allweddol

| Rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf | |
|---|---|
| 1 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Cymru |
| 2 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr |
| 3 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Manceinion Fwyaf |
| 4 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr |
| 5 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber |
| 6 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| 7 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr |
| 8 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Dwyrain Lloegr |
| 9 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Llundain |
| 10 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth De-orllewin Lloegr |
| 11 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Canol De Lloegr |
| 12 | Gwasanaeth Prawf – Rhanbarth Caint, Surrey a Sussex |




### Ffeithiau Arolygiaeth Prawf EF:

| Rhwng Mehefin 2021 – Gorffennaf 2023 cyhoeddodd yr Arolygiaeth: | |
|---|---|
| **31** | Arolygiadau'r Uned Cyflawni Prawf (PDU) |
| **7** | Arolygiadau Thematig |
| **5** | Bwletinau Ymchwil a Dadansoddi |
| **13** | Mewnwelediadau Academaidd |
| **5** | Canllawiau Ymarfer Effeithiol |

### Ffeithiau am y boblogaeth Prawf:

| | 31 Rhagfyr 2021 | 31 Rhagfyr 2022 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Llwyth Gwaith | 238,500 | 240,431 |
| Pob goruchwyliaeth yn y gymuned | 170,744 | 170,655 |
| Pob gorchymyn llys | 110,965 | 112,851 |
| Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig gyda gofynion | 41,892 | 44,258 |
| Goruchwyliaeth cyn rhyddhau | 69,815 | 71,617 |
| Goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau | 62,805 | 60,910 |

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Uwch Swyddogion Prawf | 1249 | 1435 |
| Swyddogion Prawf | 4489 | 4413 |
| Swyddogion y Gwasanaeth Prawf | 6104 | 6950 |
| Swyddogion Prawf dan Hyfforddiant (PQiP) | 2148 | 2626 |

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r data yn cwmpasu ein harolygiadau lleol rhwng 26 Mehefin 2021 (yn dilyn ail-uno'r Gwasanaeth Prawf) hyd at 13 Gorffennaf 2023 (erbyn y dyddiad hwn yr oedd 31 o 36 o adroddiadau'r Unedau Cyflawni Prawf, a oedd yn cwmpasu 10 o'r 12 rhanbarth, wedi'u cyhoeddi).

# Rhagair y Prif Arolygydd



Yr adroddiad blynyddol hwn fydd fy un olaf fel Prif Arolygydd Prawf Ei Fawrhydi ar ôl pedair blynedd yn y swydd, felly mae'n gyfle i edrych yn ôl dros gyfnod sydd wedi bod yn gythryblus ac anodd i'r Gwasanaeth Prawf a chynnig rhai adlewyrchiadau ar y dyfodol hefyd.

Yn ystod y pedair blynedd hyn, mae'r gwasanaeth wedi profi ad-drefniant strwythurol mawr (ei bedwerydd mewn 20 mlynedd). Mae wedi gorfod newid ei fodel gweithredu cyfan dros nos, mewn ymateb i'r pandemig Covid ac yna, fel gweddill y sector cyhoeddus, bu'n rhaid ymdopi ag effeithiau hirdymor y pandemig ar ôl-groniadau, morâl y staff a'r partneriaid y mae'n gweithio gyda hwy. Roedd hyn yn ei gwneud yn anos fyth i ddod allan o'r pandemig, os rhywbeth, na mynd i mewn iddo. Yn ogystal â hynny bu effaith fwy diweddar yr argyfwng costau byw ar lesiant a safonau byw staff.

Mae effaith yr holl ffactorau hyn gyda'i gilydd wedi bod yn ddwys ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn ein sgorau arolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ac mae hefyd wedi bod yn amlwg yn yr achosion difrifol proffil uchaf yr ydym wedi adrodd arnynt ers i fi ddechrau yn y swydd fel Prif Arolygydd – gan gynnwys Joseph McCann, Damien Bendall a Jordan McSweeney

Ym Mehefin 2021, pan gafodd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) y sector preifat a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) eu hail-uno fel Gwasanaeth Prawf sector cyhoeddus unigol, rhybuddiais na fyddai ail-uno yn fwled arian ei hun ar gyfer yr holl broblemau a etifeddwyd gan y gwasanaeth unedig. Dywedais na fyddai symud symiau mawr o achosion o'r sector preifat i'r sector cyhoeddus yn unig yn gwella ansawdd y gwaith y gall y staff prawf ei wneud. Roedd trawsnewidiad gwirioneddol yn ymrwymiad hirdymor, a dim ond dechrau'r daith oedd yr ail-uniad.

Dwy flynedd ar ôl ail-uno, yn anffodus mae'r broffwydoliaeth hon wedi dod yn wir. Fel y dengys yr adroddiad blynyddol hwn, mae perfformiad y gwasanaeth yn erbyn ein safonau ansawdd wedi gwaethygu os rhywbeth, nid gwella, ers uno yn 2021.

Pam hynny? Rhan o'r ateb yw dyfnder y problemau a etifeddwyd o'r cyfnod *Gweddnewid Adsefydlu*. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i lefelau staffio a phwysau llwyth achosion. Mewn ymateb i leihad mewn cyllid mewn termau real a achoswyd gan broses contract talu yn ôl canlyniadau, gorfodwyd llawer o ddarparwyr prawf y sector preifat i dorri'r nifer o swyddogion prawf cymwys (sy'n aml yn cael eu cyfnewid gan Swyddogion dibrofiad y Gwasanaeth Prawf (PSO)) a lleihau buddsoddiad mewn meysydd eraill. Arweiniodd hyn at gynnydd cyfartalog mewn llwyth achosion i lefelau anghynaliadwy mewn rhai ardaloedd lleol.

O ystyried na chyhoeddwyd y rhifau staffio ar gyfer y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ni ddatgelwyd graddau'r diffyg hwn yn nifer y staff i'r amlwg nes yr ail-uno, pan ddaeth yn amlwg bod y gwasanaeth filoedd o swyddogion yn brin o'r nifer yr oedd eu hangen i gyflawni llwythi gwaith hylaw. Pennwyd targedau recriwtio uchelgeisiol er mwyn llenwi'r bylchau hyn, ac ychwanegwyd £155 miliwn ychwanegol i gyllideb y gwasanaeth, a oedd yn golygu ei bod yn fwy nac £1 biliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, creodd y mewnlifiad o staff newydd amhrofiadol yr oedd angen eu hyfforddi a'u mentora ei broblemau ei hun.

Wrth weithio o bell a derbyn eu holl hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig, roedd yn anodd i'r staff newydd gael y gefnogaeth ymarferol a'r cyngor sydd ar gael wrth rannu swyddfa gyda chydweithwyr mwy profiadol. Ac yn y cyfamser, mae'r cydweithwyr mwy profiadol hynny wedi bod yn ymddiswyddo o'r gwasanaeth mewn niferoedd uwch nac erioed. Er bod y nifer o swyddogion prawf gyda hyd at ddwy flynedd o brofiad wedi cynyddu'n sylweddol (o 46 y cant yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023) mae'r nifer gyda phum mlynedd neu fwy o wasanaeth wedi gostwng.

Ond ni ellir priodoli pob un o'r problemau rydym wedi'u profi yn ein harolygiadau ers ail-uno i'r diwygiadau *Gweddnewid Adsefydlu* neu'r pandemig. Er fy mod wedi croesawu'r ail-uno ar y pryd, a chanmol y ffordd y cafodd y rhaglen weddnewid ei rheoli ar gyflymder, ni bu heb ei hanfanteision. Yn benodol, rwy'n gresynu at y ffordd yr oedd y cyfnod pontio wedi amharu ar rai o'r arloesiadau a'r cynnydd cadarnhaol yr oedd y darparwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gorau wedi dechrau eu gwneud.

Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y gwasanaethau adsefydlu Drwy'r Giât. Dangosodd ein rownd olaf o arolygiadau gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol bod y gwasanaethau hyn yn gwneud cynnydd gwirioneddol mewn rhai meysydd, diolch i fuddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn darpariaeth well ar ôl Ebrill 2018 a pherthnasoedd cynyddol aeddfed a chadarnhaol gyda phartneriaid y sector gwirfoddol. Derbyniodd pob un o'r 12 ardal Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yr ymwelwyd â hwy yn ein rownd olaf o arolygiadau cyn uno sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' am eu gwasanaethau Drwy'r Giât.

Daeth y partneriaethau hyn i ben yn ddisymwth o ganlyniad i'r ail-uno a hynny o blaid cyfres newydd o gontractau gwasanaeth wedi'u comisiynu'n ganolog. Yn sgîl hynny roedd y timau Drwy'r Giât yn ansicr o'u dyfodol. Fel y dangosodd ein harolygiadau thematig diweddar, mae'r fframwaith Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, sydd wedi disodli'r gwasanaethau Drwy'r Giât, i'r rhai sy'n cyflawni dedfrydau hwy, wedi perfformio'n wael, a chanfuom nad yw'r staff na'r carcharorion yn ei ddeall yn dda.

Yn y bwa hwy o hanes, mae'r ad-drefnu strwythurol diweddaraf yn dynodi'r cam olaf o newid y gwasanaeth prawf o fod yn wasanaeth a oedd yn cael ei redeg a'i ariannu'n gwbl leol ar ddechrau'r 20fed ganrif, i fod yn wasanaeth cwbl genedlaethol yn nhrydydd degawd y 21ain ganrif, gyda'r staff prawf i gyd yn weision sifil y llywodraeth erbyn hyn. Er y gallai hyn fod wedi creu cyfleoedd i staff prawf symud i rolau eraill ar draws y llywodraeth, ac arbedion

maint yn nhermau trefniadau partneriaid busnes, nid yw pawb wedi bod yn hapus gyda’r newid hwn.

Gall prosesau caffael a recriwtio’r Gwasanaeth Sifil fod yn hynod araf. Gall offer y gellid ei brynu mewn dyddiau gymryd wythnosau i'w brynu; gall swyddi gymryd misoedd lawer i'w llenwi; mae haenau lluosog o gymeradwyaethau a phrosesau comisiynu safonol a chanolog yn rhwystro arloesedd a gall hyn wneud i arweinwyr lleol deimlo'n ddi-rym.

Yna, at hyn, mae angen ychwanegu effaith y strwythur ‘Un HMPPS’ unedig, newydd ar gyfer carchardai a’r gwasanaeth prawf. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) wedi colli’r rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth prawf, rhywbeth yr oeddwn yn ei groesawu’n flaenorol, am fod hyn yn rhoi arweinyddiaeth gref a gweladwy i’r gwasanaeth. Roedd y profiad blaenorol gyda’r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) wedi dangos y gallai’r galwadau gweithredol a gwleidyddol dyddiol ar y gwasanaeth prawf dynnu sylw oddi ar y Gwasanaeth Prawf a’i anghenion penodol (a gwahanol iawn). Bydd penodi swyddi cyfarwyddwr gweithredol ardal newydd HMPPS ac arweinwyr cenedlaethol HMPPS hefyd, rwy’n ofni, yn teimlo fel israddio eu statws a dylanwad i arweinwyr prawf rhanbarthol.

Rwy’n ymwybodol o’r pryderon cryf sydd wedi’u mynegi ynglŷn â’r newidiadau hyn a’i bod yn bwysig bod llais a buddiannau’r Gwasanaeth Prawf yn parhau i gael y sylw arweinyddol sydd ei angen arnynt yn ddirfawr. Mae llawer yn y gwasanaeth yn edrych yn ôl yn hiraethus i’r dyddiau (nad ydynt mor bell yn ôl â hynny), pan oedd y gwasanaeth prawf yn wasanaeth gwirioneddol leol – yn atebol yn lleol yn hytrach nac o San Steffan, a oedd yn canolbwyntio ar bartneriaethau lleol a’r gallu i weithredu’n annibynnol ynddynt. O ystyried ein canlyniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ar ôl siarad gydag arweinwyr a rheolwyr prawf o amgylch Cymru a Lloegr, mae’n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn cydymdeimlo fwyfwy â’r farn hon. Bydd angen i’r Gwasanaeth Prawf fod yn genedlaethol bob amser, o ystyried y pwysau cyson ar leoedd mewn carchardai a’r angen i reoli swyddogaethau prin fel diogelwch uchel, menywod a’r ystâd ieuenctid ar lefel genedlaethol.

Ac mae’n well i rai o’r swyddogaethau prawf, er enghraifft rheoli troseddwyr terfysgaeth ar ôl eu rhyddhau a’r ystâd eiddo gymeradwyo o bosibl gael eu rheoli’n genedlaethol hefyd. Ond i’r mwyafrif helaeth o’r llwyth achosion prawf, mae pob un o’r perthnasoedd pwysicaf i’r staff prawf a’r bobl maent yn gweithio gyda hwy yn rhai lleol, gyda phartneriaid sy’n cael eu rhedeg yn lleol ac sy’n atebol. Mae’r rhain yn cynnwys gwasanaethau lleol yr heddlu; tai awdurdodau lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol; ymddiriedolaethau iechyd meddwl lleol a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol lleol. Dylai’r Gwasanaeth Prawf fod yn gyfranogwr allweddol yn y partneriaethau hyn, ac mae ganddo sedd ym mhob un o’r cyfarfodydd partneriaeth pwysig - ond er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r sedd hon, mae angen i arweinwyr lleol gael y rhyddid i ymrwymo adnoddau a staff; i gytuno ar gontractau lleol; i benderfynu ar fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol a gallu siarad yn gyhoeddus i amddiffyn ac eirioli ar ran eu gwasanaethau lleol. Mae arweinwyr prawf lleol wedi’u cyfyngu’n aruthrol o ran yr holl fathau hyn o ryddid a hyblygrwydd gan y strwythurau presennol. Mae’n drawiadol bod ein sgorau arolygu ar gyfer y gwasanaeth troseddau ieuenctid, sy’n gallu gwneud yr holl bethau hyn, wedi bod yn llawer gwell o gymharu â’r gwasanaeth prawf yn ystod y flwyddyn ddiweddaf ac, yn wir, mae’n ymddangos eu bod wedi gwella, er gwaethaf y pandemig.

Wrth gwrs, mae hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod gan y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (YJS) lwythi achosion sy’n haws eu rheoli – ac sy’n llawer is na’r gwasanaethau prawf cyfatebol. Ond rwy’n credu bod hyn hefyd yn adlewyrchu’r ffaith bod mwy o wytnwch a photensial ar gyfer yr hyblygrwydd a’r arloesedd sy’n bosibl gyda gwasanaeth sy’n cael ei redeg yn lleol ac sy’n atebol, gyda’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi’i wreiddio i raddau helaeth yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol. Mae perthnasoedd lleol cryf yn cael eu cadarnhau gan fyrddau rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder

Ieuenctid hefyd.  Mae’r rhain yn cynnwys uwch gynrychiolwyr yr holl wasanaethau lleol y bydd staff ac arweinwyr gwasanaethau’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio gyda hwy, sydd â’r pŵer i ddatrys materion yn eu gwasanaethau eu hunain ar ran y plant ar bob llwyth achos y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Er fy mod yn cydnabod y byddai’n rhaid i unrhyw ad-drefniant arall o’r gwasanaeth, ac unrhyw newid i’r cyfeiriad hwn gael ei wneud gyda chytundeb penodol rheolwyr a staff lleol, rwy’n credu fod yr amser wedi dod i gynnal  adolygiad annibynnol i weld a ddylai’r gwasanaeth prawf symud yn ôl i gynllun llywodraethu a rheolaeth mwy lleol, gan adeiladu ar wersi hynod lwyddiannus y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid – roedd 70 y cant ohonynt yn 'dda' neu'n 'eithriadol' y llynedd.

Yn ail ran yr adroddiad hwn rydym yn ystyried anghenion pobl ar brawf a allai fod yn ysgogi eu hymddygiad troseddu – er enghraifft problem gyda chyffuriau neu alcohol; llety ansicr neu ddiffyg cyflogaeth; neu sgiliau meddwl gwael – ac a yw’r rhain yn cael eu cyflawni.  Yr ateb byr yw nad ydynt yn cael eu cyflawni.  Rhoddwyd sgôr ‘Annigonol’ am ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth mewn 13 o’r 31 Uned Cyflawni Prawf a arolygwyd gennym ym Mai 2023.  Ategwyd y dyfarniadau hyn gan ein hasesiadau achos unigol, lle canfu fy arolygwyr mai dim ond mewn 44 y cant o’r achosion a arolygwyd ganddynt yr oedd y gwasanaethau a weithredwyd ac a ddarparwyd yn cefnogi ymataliad y person ar brawf yn effeithiol. Ac ar gyfer gwasanaethau fel triniaeth cyffuriau neu alcohol, roedd y darlun hyd yn oed yn waeth. Mewn bron i hanner yr achosion lleol a arolygwyd gennym, roedd gan yr unigolyn broblem gyffuriau yn gysylltiedig â'i droseddu, ond dim ond mewn 29 y cant o'r rhain yr oedd digon o wasanaethau'n cael eu darparu i gyflawni’r angen hwnnw.

Mewn menter newydd bwysig, rydym hefyd wedi dechrau holi pobl sydd ar brawf a ydynt yn credu bod eu hanghenion yn cael eu cyflawni.  Ers Ebrill 2022, mae sefydliad Llais y Defnyddiwr, sy’n cael ei redeg a’i staffio gan bobl sydd wedi bod drwy’r system cyfiawnder troseddol eu hunain, wedi bod yn arolygu a chyfweld â phobl ar brawf ar ein rhan ym mhob ardal leol y byddwn yn ei harolygu.  O’r 1,350 a mwy o bobl ar brawf a atebodd eu harolygon ar draws 21 o’r Unedau Cyflawni Prawf lleol, dim ond 61 a ddywedodd eu bod yn derbyn y gwasanaethau oedd eu hangen arnynt, er bod y nifer uchel o bobl a ddywedodd nad oedd angen unrhyw wasanaethau arnynt yn awgrymu nad oedd llawer ohonynt yn cydnabod eu hanghenion eu hunain neu’r gwasanaethau a allai fod ar gael iddynt.

Mae effaith y pandemig i’w gweld yn glir o hyd yn y cyfraddau dechrau isel a’r amseroedd aros hir ar gyfer y rhaglenni achrededig sy’n cael eu gorchymyn gan y llysoedd a’r niferoedd uchel o orchmynion gwaith di-dâl sy’n cyrraedd y pwynt 12 mis heb fod wedi’u cwblhau. Yma hefyd, gwelwn gyfraddau swyddi gwag uchel ac mae gorfodaeth a chydymffurfiaeth wael wedi gwaethygu’r sefyllfa.

Ond mae fy mhrif bryderon yn parhau i fod ym maes amddiffyn y cyhoedd.  Roedd gallu’r Gwasanaeth Prawf i asesu’n gywir a rheoli’n gadarn y risgiau posibl o niwed difrifol gan bobl ar brawf eisoes yn faes perfformiad mwyaf gwan y gwasanaeth cyn y pandemig, ac mae wedi gwaethygu mwy ers yr ail-uno.  Rydym wedi sgorio dwy ran o dair o’r achosion unigol a arolygwyd ar draws 10 rhanbarth yn annigonol.  Mae’r darlun yn waeth byth ar gyfer achosion risg canolig, sy’n cynrychioli’r mwyafrif o lofruddiaethau a gyflawnir gan bobl ar brawf ac felly bydd angen rheoli hyn yr un mor ofalus ag achosion risg uwch.  Mae llwyth achosion mawr wedi lleihau’r amser y gall ymarferwyr ei dreulio’n asesu, cynllunio neu reoli pob achos unigol.  Mewn gormod o achosion, mae hyn wedi lleihau apwyntiadau wyneb yn wyneb i ddim llawer mwy na gwiriadau lles, ac nid yw’r ffaith bod y staff yn treulio llai o amser yn gweithio yn y swyddfa ac yn gweithio gartref wedi helpu gyda hyn.

Ac mae llwyth gwaith trwm rheolwyr llinell (uwch swyddogion prawf) yn golygu nad oes ganddynt amser i graffu’n briodol ar waith eu timau neu ymgysylltu yn y math o hyfforddiant

a chefnogaeth sydd eu hangen i wella ymarfer nifer fawr o hyfforddeion neu staff sydd newydd gymhwyso – felly mae camgymeriadau'n cael eu methu. Ar draws yr achosion a arolygwyd gennym, roedd goruchwyliaeth rheoli yn annigonol mewn 72 y cant brawychus o achosion.

Dro ar ôl tro, rydym hefyd yn canfod nad yw ymarferwyr yn llwyddo i dynnu ar ystod digon eang o wybodaeth wrth asesu risg. Er enghraifft, dim ond mewn 49 y cant o'r achosion cam-drin domestig yr oeddem yn credu y dylent fod wedi gwneud ymholiadau gyda'r heddlu a dim ond mewn 55 y cant o achosion y gwnaed ymholiadau diogelu gyda gwasanaethau plant lleol. Mae canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr euogfarn ddiweddaraf yn golygu bod tystiolaeth o risg yn y gorffennol, er enghraifft trais yn erbyn partneriaid blaenorol neu dystiolaeth o ddefnyddio arf neu aelodaeth gang yn cael ei cholli.

Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn amlwg yn yr adolygiadau annibynnol proffil uchel a gyhoeddwyd gennym eleni o oruchwyliaeth Damien Bendall a Jordan McSweeney, a ddenodd sylw aruthrol yn y cyfryngau. Er ein bod wedi canfod methiannau clir yn safon ymarfer prawf unigol yn y naill achos a'r llall, roedd materion systemig ehangach hefyd a welwn dro ar ôl tro yn ein harolygiadau prawf lleol a hefyd yn yr adolygiadau thematig. Roedd y rhain yn cynnwys ymarferwyr wedi'u gorlwytho a llwyth gwaith rheolwyr llinell yn llawer uwch na'u targed; oedi sylweddol wrth drosglwyddo achosion o'r carchar i staff prawf cymunedol, a oedd yn arwain at waith cynllunio munud olaf ac annigonol ar gyfer rhyddhau; asesiadau risg anghyflawn neu anghywir yn cael eu cynnal ar y cam llys a dechrau goruchwyliaeth; a staff amhrofiadol iawn yn derbyn achosion amhriodol o gymhleth gyda'r lefel isaf o oruchwyliaeth rheoli.

Ond beth am y dyfodol? Er bod y flwyddyn ddiweddaf wedi bod yn un siomedig i mi orffen fy nghyfnod fel y Prif Weithredwr, rwy'n ffyddiog y daw dyddiau gwell. Gwyddom yn awr bod ymarfer prawf o safon uchel yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i ganlyniadau. Mewn adroddiad ymchwil pwysig a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni, yn seiliedig ar ddadansoddiad o achosion a arolygwyd cyn yr ail-uno, canfuom fod cydberthynas arwyddocaol rhwng arferion prawf effeithiol mewn achosion unigol a'r canlyniad ar gyfer y person hwnnw ar brawf, fel y datgelwyd gan Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a data'r gwasanaeth ei hun. Yn yr achosion lle'r oedd ein harolygwyr o'r farn bod yr oruchwyliaeth brawf a ddarparwyd yn ymgysylltu â'r person ar brawf ac yn cefnogi eu hymataliad, roedd y gyfradd cwblhau dedfryd 24 pwynt canran yn uwch ac roedd y gyfradd aildroseddu 14 pwynt canran yn is o gymharu ag achosion lle'r oedd y ddwy farn yn negyddol. Yn ogystal â dangos ein bod yn arolygu'r pethau cywir wrth lunio barn ar ansawdd, mae hefyd yn dangos bod y pethau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganlyniadau bywyd y bobl y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda hwy.

Mae Prif Swyddog Prawf newydd wedi datgan mai diogelu'r cyhoedd yw ei phrif flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth, ac rwy'n falch bod HMPPS wedi derbyn yr holl argymhellion o'n hadolygiadau o achosion Bendall a McSweeney. Mae aelodau newydd o staff wedi'u recriwtio i ddarparu ymholiadau'r heddlu ac ymholiadau diogelwch plant a oedd ar goll mewn gormod o achosion. Mae ymgyrch recriwtio fawr yn dwyn ffrwyth o'r diwedd, gyda'r nifer o ymarferwyr ac uwch swyddogion prawf yn dechrau cynyddu yn y 12 mis diwethaf. Mae'n bosibl y bydd cytundeb cyflog tair blwyddyn yn annog mwy o bobl i ymuno â'r gwasanaeth, ac mae rhai arwyddion y gallai ein harolygiadau a'n llwythi achosion fod yn lleihau, hyd yn oed os nad yw hynny'n bwydo i mewn i safon yr ymarfer eto. Mae staff wedi dychwelyd i'w swyddfeydd ar ôl y pandemig ac yn gweld pobl ar eu llwyth achosion wyneb yn wyneb (er mai dim ond unwaith y mis weithiau) ac mae partïon gwaith di-dâl wedi dychwelyd i safleoedd yn ôl yr arfer.

Ond yn bennaf oll rwy'n synhwyro penderfyniad ymhlith arweinwyr gwasanaethau a rheolwyr i wella. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gwrdd â channoedd o staff prawf ledled

Cymru a Lloegr yn fy nghyfnod fel Prif Arolygydd ac nid wyf erioed wedi amau eu hawydd i wneud y peth iawn. Yn y canllawiau arfer effeithiol yr wyf wedi'u cyflwyno fel Prif Arolygydd, rydym wedi gallu arddangos y pethau niferus y mae staff a rheolwyr unigol yn eu dyhead i wneud y peth iawn a'r datblygiadau arloesol sy'n dal i fodoli - i gydbwyso'r hyn yr ydym wedi'i ddweud yn ein hadroddiadau arolygu am yr hyn sy'n mynd o'i le. Ac fel y mae ein cyfweliadau gyda phobl ar brawf yn dangos, pan fydd pethau'n cael eu gwneud yn iawn gall newid bywydau (ac weithiau achub bywyd) i'r bobl dan sylw, felly hoffwn orffen ar nodyn cadarnhaol trwy ddyfynnu un ohonynt:

> *"Mae'r gwasanaeth prawf wedi bod yn gefnogol iawn ac rwy'n falch o'u cael. Roeddwn yn bryderus iawn am y dyfodol ac mae'r gwasanaeth prawf yn parhau i fy helpu i beidio cynhyrfu a chanolbwyntio ar y dyfodol ac nid ar y gorffennol."*



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EF

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu ein ton gyntaf o arolygiadau lleol a gynhaliwyd ar ôl ail-uno'r Gwasanaeth Prawf ar 26 Mehefin 2021. Ers ail-uno, rydym wedi arolygu 36 Uned Cyflawni Prawf (PDU) ym mhob un o'r 12 rhanbarth prawf. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu data o'r 31 adroddiad arolygu Unedau Cyflawni Prawf, sy'n cwmpasu 10 o'r 12 rhanbarth a oedd wedi'u cyhoeddi erbyn 13 Gorffennaf 2023. Rydym yn esbonio ein proses arolygu yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

Ers Gorffennaf 2022 rydym hefyd wedi cyhoeddi arolygiadau thematig ar gydraddoldeb hil, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), a'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC), y rhai sy'n cyflawni trais domestig, a gweithio gyda throseddwyr terfysgaeth.

Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi13 Mewnwelediadau Academaidd <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/research/academic-insights/>, pum canllaw ymarfer effeithiol <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/effective-practice/>, pum Bwletin Ymchwil a Dadansoddi <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/research/research-analysis-bulletins/> a dau adolygiad Troseddau Pellach Difrifol <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections?s&probation-inspection-type=serious-further-offence-review>, yn ogystal â'n hadroddiad blynyddol ar adolygiadau Troseddau Pellach Difrifol. Mae rhestr lawn o'n cyhoeddiadau o'r cyfnod dan sylw ar gael yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn.

Rydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn i adlewyrchu'r materion pwysig sydd wedi deillio o'n gwaith eleni. Mae Pennod 1 yn darparu trosolwg o'r canfyddiadau o'n harolygiadau lleol o 31 Uned Cyflawni Prawf. Mae'r penodau dilynol yn archwilio'r prif faterion sydd wedi deillio o'n gwaith eleni. Mae Pennod 2 yn dadansoddi'r lefelau staffio presennol a'u heffaith ar ddarparu'r gwasanaethau prawf. Mae Pennod 3 yn archwilio anghenion pobl ar brawf ac i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu cyflawni. Mae Pennod 4 yn ymchwilio i berfformiad prawf mewn cysylltiad â risgiau ac amddiffyn y cyhoedd; ac mae Pennod 5 yn disgrifio cyflwr presennol gwaith ailsefydlu. Mae **Atodiad 4** yn darparu dolen i ddarllenwyr sydd â diddordeb i'r data cyfanredol o bob un o'n harolygiadau o Unedau Cyflawni Prawf am y tro cyntaf.

# Pennod 1: Canfyddiadau o'n harolygiadau lleol

Ar ôl i'r Gwasanaeth Prawf ail-uno ddiwedd Mehefin 2021, dechreuodd Arolygiaeth Prawf EF ar gylch newydd o arolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar yr 108 uned cyflawni prawf lleol ar draws y 12 rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r unedau lleol hyn yn ganolfannau i'r mwyafrif o staff prawf sy'n gyfrifol am y gwaith craidd o asesu a rheoli dedfrydau gyda phobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded ac ar ddedfrydau cymunedol. Mewn rhai ardaloedd, ond nid ym mhob un, maent hefyd yn rheoli'r timau llys prawf sy'n cynnal asesiadau ac ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu er mwyn cynghori llysoedd lleol ar ddedfrydau priodol.

Gallai timau prawf eraill, er enghraifft y rhai sy'n cyflawni gorchmynion gwaith di-dâl, rhaglenni achrededig neu waith cyswllt â dioddefwyr, gael eu rheoli gan y rhanbarth prawf. Mae nifer sylweddol o'r staff prawf - hyd at 1,000 ohonynt - yn gweithio mewn carchardai ac yn cynnal asesiadau ac ymyriadau cyn rhyddhau. Er y bydd gwaith y timau hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr achosion y byddwn yn eu harolygu'n lleol, nid ydym yn ystyried y swyddogaethau hyn ar wahân ar lefel Uned Cyflawni Prawf. Darperir ystod o swyddogaethau eraill, er enghraifft, rheoli troseddwyr terfysgaeth neu leoedd eiddo cymeradwy, neu ddarparu hyfforddiant, yn ganolog ac maent wedi'u lleoli ym mhencadlysoedd HMPPS. Nid ydynt yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Prawf EF ar hyn o bryd ond gallent fod yn destun archwiliadau thematig cenedlaethol; yn wir, fe wnaethom gyhoeddi arolwg thematig o waith gwrthderfysgaeth ym mis Gorffennaf eleni.

Ers ail-uno'r Gwasanaeth Prawf, rydym wedi ceisio arolygu traean o'r Unedau Cyflawni Prawf lleol ym mhob un o'r 12 rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr. Erbyn canol Gorffennaf 2023, roeddem wedi cyhoeddi adroddiadau ar 31 Uned ar draws 10 rhanbarth.

Mae'r bennod hon yn edrych ar ganlyniadau'r cylch cyntaf hwn o arolygiadau o'r gwasanaeth unedig newydd a pha mor llwyddiannus mae'r gwasanaethau prawf lleol yn asesu, goruchwylio a chefnogi pobl ar brawf, p'un a ydynt ar ddedfryd gymunedol neu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau ar drwydded o'r ddalfa. Mae'r bennod yn dechrau drwy esbonio ein system sgorio. Yna rydym yn crynhoi ein data ar arolygiadau lleol ar oruchwylio achosion.

## Sgorau

Ers yr hydref 2021, rydym wedi graddio 31 Uned Cyflawni Prawf. Mae pob gwasanaeth yn cael eu graddio yn 'Rhagorol', 'Da', 'Angen gwella' neu 'Annigonol' yn gyffredinol, yn ogystal â'u graddio ar lefel safonau unigol ar gyfer pob un o'r meysydd rydym yn eu harolygu (gweler Atodiad 1). Mae'r canlyniadau wedi bod yn siomedig. Dim ond un Uned Cyflawni Prawf (De Tyneside a Gateshead) a dderbyniodd raddfa 'Da' gyda 15 o'r Unedau 'Angen gwella' a'r 15 a oedd yn weddill yn 'Annigonol'. Y sgôr uchaf y gall Uned ei chyflawni yw 27. Derbyniodd y 31 Uned yr ydym wedi'u harolygu hyd yma sgôr o rhwng 0 a 15 allan o 27 (neu allan o 24 ar gyfer y naw Uned heb dîm llysoedd i'w harolygu), gyda sgôr gyfartalog (cymedrig) o ddim ond pump allan o 27. Mae cymhariaeth rhwng y data o'r rownd ddiweddaraf o arolygiadau gyda data cyfunol y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer yr un rhanbarthau cyn yr ail-uno, yn awgrymu y gallai ansawdd y system rheoli dedfrydau fod wedi gwaethygu mewn gwirionedd.

## Arweinyddiaeth a darpariaeth sefydliadol

Mae ein cyfres gyntaf o safonau ansawdd (ein maes cyntaf) yn cyfeirio at arweinyddiaeth a chyflawni sefydliadol. Mae ein dyfarniadau yn erbyn y rhain yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth a gasglwyd cyn ac yn ystod yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys cyfres helaeth o

gyfweliadau gwaith maes a grwpiau ffocws gyda staff ar bob lefel o'r sefydliad, a data o'r sampl o achosion unigol a arolygwyd. Mae ein harolygiadau yn canolbwyntio'n benodol ar a yw arweinyddiaeth a galluogwyr sefydliadol yn cael effaith yn ymarferol ar y bobl sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth yn nhermau eu risgiau posibl o niwed neu anghenion ar gyfer gwasanaethau allweddol. Oherwydd hyn, rydym wedi cyflwyno cyfres newydd o 'reolau' penderfynu ar ddechrau'r cylch arolygiadau presennol sy'n cysylltu'n amlwg ein dyfarniadau ar arweinyddiaeth a chyflawni sefydliadol â'r hyn a welwn yn yr achosion unigol rydym yn eu harolygu.

Yn ymarferol, golyga hyn na all Uned Cyflawni Prawf leol dderbyn sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' ar ein safon arweinyddiaeth os bydd yn derbyn gradd 'Annigonol' ar unrhyw rai o'n safonau gwaith achos (h.y. os ystyrir bod llai na hanner yr achosion sy'n cael eu harolygu'n cael eu barnu'n foddhaol yn erbyn un o'r safonau hyn). Yn yr un modd, nid yw'n bosibl i Uned dderbyn sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' ar ein safon 'gwasanaethau' os bydd yn derbyn sgôr 'Annigonol' am yr hyn y byddwn yn ei weld ar waith yn yr achosion rydym yn eu hasesu – er enghraifft, a yw rhaglenni achrededig neu orchmynion gwaith di-dâl yn cael eu cychwyn a'u cwblhau.

O ystyried ansawdd gwael y gwaith rheoli dedfrydau a ganfuwyd yn ein hasesiadau o achosion yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r rheolai newydd hyn wedi cael effaith sylweddol ar ein graddfeydd. Felly, er enghraifft, dim ond un Uned Cyflawni Prawf a dderbyniodd sgôr 'Da' ar ein safon arweinyddiaeth, a derbyniodd 13 Uned sgôr 'Annigonol' ar ein safon gwasanaethau – gyda chydberthynas gref rhwng y 13 hyn a'r gwasanaethau a gafodd sgôr gyffredinol 'Annigonol'. Cafodd deg gwasanaeth eu graddio'n 'Annigonol' ar ein safon staffio, sy'n adlewyrchu'r prinder staff cronig yr ydym wedi'i ganfod ym mron pob rhan o Gymru a Lloegr.

## Goruchwylio achosion

Ym mhob Uned Cyflawni Prawf rydym yn cynnal arolwg manwl o sampl o achosion unigol pan fydd yr unigolyn wedi dechrau cael eu goruchwylio ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar neu ddedfryd yn y llys tua chwech i saith mis cyn ein hymweliad gwaith maes. Rydym yn asesu pob achos pan fydd goruchwyliaeth wedi dechrau mewn dwy wythnos wahanol. Creodd hyn sampl o rhwng 21 a 102 ym mhob un o'r 31 Uned a arolygwyd ac a gyhoeddwyd hyd yma.


Mae ymarfer prawf cyfredol yn seiliedig ar fodel ASPIRE o oruchwylio achosion (Asesu; Cynllunio Dedfryd; Gweithredu; Adolygu a Gwerthuso). Yn ein harolygiadau lleol rydym yn barnu ansawdd y gwaith o gyflawni achosion lleol yn erbyn y broses ASPIRE hon. (Mae esboniad pellach o'r fethodoleg hon ar gael yn Atodiad 1).

Yn siomedig, mae dadansoddiad o'r data llwyth achosion ar draws yr holl feysydd prawf hyn yn dangos nad oedd un elfen o'r broses goruchwylio achosion yn cael ei darparu'n dda ledled Cymru a Lloegr. Mae Siart 1 isod yn dangos dadansoddiad manwl o gyfran yr achosion lle cyflawnwyd pob un o'r 12 maen prawf ansawdd rydym yn eu harolygu i'r lefel a ddisgwylir gan ein safonau cyhoeddedig. Ni chyflawnwyd unrhyw elfen o'r broses oruchwylio yn foddhaol mewn mwy na 62 y cant o'r 1,509 o achosion a arolygwyd gennym. Dim ond mewn tair Uned Cyflawni Prawf yr oedd mwy na hanner yr achosion yn ddigonol yn erbyn y cwestiwn ansawdd a sgoriodd waethaf - asesu risgiau o niwed difrifol.

Yn gyffredinol roedd ymarferwyr prawf yn cyflawni'n well yn y meini prawf hynny sy'n ymgysylltu â phobl ar brawf ar bob un o'r pedwar cam goruchwylio, ond roedd y sylw a roddwyd i'r risg o niwed yn gyson wael, a dyma'r prif reswm pam fod cymaint o'r gwasanaethau wedi derbyn sgôr 'Annigonol' yn gyffredinol.

Roedd arolygwyr o'r farn bod nifer fach o ymarferwyr wedi llwyddo i reoli'r risg o niwed i bobl eraill yn effeithiol yn y camau asesu (33 y cant), cynllunio (42 y cant), gweithredu a chyflawni (35 y cant) ac adolygu (42 y cant). Rydym yn ystyried perfformiad mewn cysylltiad â'r risg o niwed mewn manylder ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.


Siart 1: Cyfran yr achosion a gyflawnwyd i'r lefel ddisgwyliedig ym mhob cam o'r broses goruchwylio achosion
(n = 1,509 achosion a arolygwyd)




[Assessment] Asesu [Planning] Cynllunio [Imp and delivery] Gweithredu a chyflawni [Reviewing] Adolygu [Engagement] Ymgysylltu [Desistance] Ymatal [Risk of harm] Risg o niwed

Roeddem yn siomedig canfod bod perfformiad wedi gostwng ym mhob un o'r 12 cwestiwn allweddol a holwyd ynglŷn ag ansawdd ymarfer prawf. Mae **Siart 2** yn cymharu perfformiad yn y 10 rhanbarth a arolygwyd hyd yma o dan y model ail-uno gyda pherfformiad yn y cyfnod 2018 i 2019 o dan y model *Gweddnewid Adsefydlu* (gan gyfuno sgorau gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol). Mae'n bwysig nodi bod y sgorau hyn yn seiliedig ar yr un cwestiynau mewn arolygiadau a gynhaliwyd cyn ac ar ôl uno.

Siart 2: Cymharu data arolygu achosion cyn ac ar ôl uno




[Probation inspections...] Dyfarniadau cryno arolygiadau prawf cyn ac ar ôl uno {% Ie)

[Engagement] Ymgysylltu [Desistance] Ymatal [Risk of Harm] Risg o Niwed [Assessment] Asesu [Planning] Cynllunio [Imp and delivery] Gweithredu a chyflawni [Reviewing] Adolygu [Pre-unification] Cyn uno [Post-unification] Ar ôl uno

Mae'n bosibl y byddem wedi disgwyl i berfformiad gael ei effeithio'n andwyol gan y pandemig a chan y broses ailstrwythuro fawr a oedd yn gysylltiedig ag ailuno. Fodd bynnag, rydym yn pryderu na fu unrhyw duedd ganfyddadwy tuag at berfformiad gwell yn y 19 mis yr ydym wedi cynnal y 31 arolygiad lleol hyn, gyda 30 o Unedau Datblygu Personol yn cael graddfeydd cyffredinol 'Annigonol' ac 'Angen gwella' yn 2023.

Yn yr un Uned Cyflawni Prawf a dderbyniodd un sgôr 'Da' (Gateshead a De Tyneside), nododd ein harolygwyr nifer o ffactorau yr oedd yn ymddangos eu bod yn gysylltiedig â'r perfformiad da hwn. Roeddent yn cynnwys:

- grŵp staff cadarn, ymrwymedig gyda llwyth gwaith rhesymol
- grŵp medrus ac ymrwymedig o uwch swyddogion prawf sy'n darparu goruchwyliaeth dda
- parhad da o ran goruchwyliaeth
- partneriaethau rhagorol, yn arbennig gyda'r heddlu a gwasanaethau plant - roedd yr ymholiadau cam-drin domestig yn ddigonol yn holl adroddiadau'r llysoedd, pan oedd hynny'n briodol.

## Gwaith llys

Yn ogystal ag arolygu'r gwaith o oruchwylio achosion, rydym hefyd yn archwilio safon yr adroddiadau llys ym mhob un o'n harolygiadau lleol pan fydd tîm llys yn rhan o'r Uned Cyflawni Prawf. Roedd hyn yn berthnasol i 22 o'n 31 arolwg lleol. Mae gennym rai pryderon sylweddol ynghylch y gwaith llys. O'r holl adroddiadau llys rydym wedi'u harolygu ers yr ail-uno, yn y mwyafrif o achosion (52 y cant), roedd ein harolygwyr o'r farn nad oedd

gwybodaeth a chyngor cyn dedfrydu yn ddigon dadansoddol a phersonol i gefnogi proses gwneud penderfyniadau'r llys. Roedd hanner (11 o 22) o'r Unedau Cyflawni Prawf a arolygwyd gennym wedi derbyn sgôr 'Annigonol' am waith llys a derbyniodd bron i draean ohonynt (7 o 22) sgôr 'Angen gwella'. Cafodd un Uned sgôr 'Da' a chafodd tair o'r 22 sgôr 'Rhagorol'.

Yn benodol, roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'r diffyg asesiadau risg cynhwysfawr ar y cam adroddiad llys:

- nid oedd 51 y cant o ymholiadau cam-drin domestig yr heddlu wedi'u cwblhau mewn adroddiadau llys pan ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol
- ni chafodd 48 y cant o ymholiadau diogelu gyda gwasanaethau plant lleol eu cwblhau.

Os yw'r asesiad risg cychwynnol yn y llys (neu ar ddechrau dedfryd) yn anghywir, mae'r gwall hwn yn bwydo i gynlluniau gwael a phroses rheoli achos wael, fel y canfuwyd yn ein hadroddiadau troseddau difrifol pellach. Rydym yn trafod y mater hwn mewn mwy o fanylder ym Mhennod 4, sy'n trafod diogelu'r cyhoedd a'r risg o niwed.

Roedd tanstaffio wedi cael effaith andwyol ar berfformiad llawer o'r timau llys. Fodd bynnag, pan ganfu ein harolygwyr berfformid da a lefelau uchel o foddhad dedfrydwyr, roedd y rhain yn dueddol o fod o ganlyniad i waith cynllunio strategol da. Roedd rhanbarthau Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi buddsoddi mewn rheolwr strategol llys rhanbarthol i oruchwylio'r perfformiad a chynnal proses gyfathrebu agos gyda'r farnwriaeth, yn arbennig ynglŷn â newidiadau i strwythurau a darpariaeth gwasanaeth prawf.

## Casgliad

Yn gyffredinol, mae'r perfformiad prawf wedi bod yn siomedig ers yr ail-uno. Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrif am hyn yw tanstaffio, sydd wedi effeithio ar bob rhanbarth prawf. Mae'r bennod nesaf yn trafod hyn mewn manylder.


## Pennod 2: Staffio

Mater allweddol sy'n sail i lawer o'n sgorau arolygu lleol sy'n peri pryder yw diffyg staff cronig ar lawer o raddau ymarferwyr a'i effaith ganlyniadol ar lwythi gwaith a'r canfyddiadau ynghylch eu gallu i'w rheoli. Nid oedd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi darparu eu ffigurau o'u nifer o staff ar yr adeg yr oeddent yn gweithredu, felly ni ddatgelwyd graddau llawn y problemau tan-staffio yn y Gwasanaeth Prawf hyd at yr ail-uno. Daeth yn amlwg yn gyflym iawn bod y gwasanaeth filoedd yn brin o'r nifer o swyddogion oedd eu hangen i gyflawni llwythi gwaith dichonadwy o dan y model gweithredu targed newydd ar gyfer y gwasanaeth a oedd wedi'i ail-uno. Mewn ymateb i hyn, cynyddodd HMPPS y targed cenedlaethol ar gyfer swyddogion prawf o 1,000 bellach yn ystod haf 2022 i 6,160. Cynyddodd hyn y gyfradd swyddi gwag ar y radd swyddog prawf, ond mae'n farn fwy realistig o'r nifer o staff sydd eu hangen i gyflawni llwythi gwaith dichonadwy.

Rydym yn croesawu penderfyniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i recriwtio mwy o staff a'i phenderfyniad i ariannu'r cynnydd hwn mewn staffio. Serch hynny, mae bron pob un o'r Unedau Cyflawni Prawf yr ydym wedi'u harolygu yn cael trafferth gyda diffyg staffio, er bod arolygiadau diweddar wedi gweld niferoedd staff yn dechrau cynyddu.

Yn y bennod hon rydym yn dechrau drwy nodi niferoedd diweddaraf y gweithlu, ac yna'n edrych ar yr effaith ar lwythi gwaith ymarferwyr. Yna byddwn yn edrych ar effaith prinder staff ar ddarpariaeth rheng flaen ac ar oruchwyliaeth y gwasanaeth a ddarperir.

Mae ein harolygwyr wedi darganfod ystod o heriau staffio. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu nid yn unig yn y lefelau uchel o swyddi gwag ond hefyd mewn cyfraddau salwch ac ymddiswyddo uchel. Maent yn cynnwys yr heriau ynghylch y trefniadau gweithio cymysg yn dilyn y pandemig, oedi wrth ddechrau staff newydd a materion ynghylch hyfforddiant a goruchwyliaeth gan reolwyr.



## Lefelau staffio

Mae'r data diweddaraf am y gweithlu prawf cenedlaethol[1] yn dangos graddau'r argyfwng staffio a natur gymhleth y sefyllfa. Mae ystadegwyr HMPPS yn diffinio tair prif radd allweddol o staff prawf: swyddogion band 3 y gwasanaeth prawf (PSO), swyddogion prawf band 4 (a adnabyddir ar y cyd fel ymarferwyr prawf), ac uwch swyddogion prawf band 5 (sy'n rheolwyr llinell ar yr ymarferwyr). Mae staff sy'n hyfforddi i fod yn swyddogion prawf yn gweithio fel PSO yn ystod eu hyfforddiant, felly bydd cyfran o'r swyddogion PSO yn gweithio tuag at y cymhwyster swyddog prawf proffesiynol (PQiP).

Ar 31 Mawrth 2023, roedd yna 6,950 o PSO band 3 cyfwerth ag amser llawn yn y swydd hon. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd i'w groesawu o 846 PSO cyfwerth ag amser llawn (13.9 y cant) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ategwyd hyn gan hwb recriwtio sylweddol yn ystod chwarter cyntaf 2023 gyda 741 PSO ychwanegol yn y swydd. Y prif reswm oedd y cynnydd mawr yn y nifer o swyddogion prawf dan hyfforddiant. Ar yr un dyddiad, roedd 4,413 o swyddogion prawf band 4 cyfwerth ag amser llawn yn y swydd. I'r gwrthwyneb, mae'r ffigur hwn yn cynrychioli gostyngiad bychan o 50 yn y nifer o swyddogion prawf band 4 cyfwerth ag amser llawn (1.1 y cant) o gymharu â 31 Rhagfyr 2022, ac ni welwyd unrhyw welliant eleni. O ystyried y targed diweddaraf o 6,158, mae prinder cenedlaethol cyffredinol o 1,771 o swyddogion prawf o gymharu â'r lefel staffio ofynnol, cyfradd o 29 y cant o swyddi gwag.


Hefyd roedd 1,435 o uwch swyddogion prawf band 5 cyfwerth ag amser llawn yn y swydd ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd i'w groesawu o 186 (14.9 y cant) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 70 (5.1 y cant) o gymharu â'r chwarter blaenorol.

Mae'r lefelau staffio yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarthau. Mae **Siart 3** yn dangos y gyfradd swyddi gwag gyffredinol ar gyfer y graddfeydd swyddogion prawf ar draws pob rhanbarth[2]. Mae'r gyfradd swyddi gwag yn amrywio o 19.6 y cant yn rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr i 31.8 y cant yn Swydd Efrog a'r Humber a 34.9 y cant yn Llundain.

Siart 3: cyfradd swyddi gwag swyddogion prawf yn ôl rhanbarth, Rhagfyr 2022

[1] Bwletin Ystadegau Gweithlu HMPPS a gyhoeddwyd ar 18 Mai 2023 sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2023.

[2] Data o atodiad ystadegau'r gweithlu HMPPS o'r swyddogion prawf sydd wedi'u recriwtio hyd at fis Rhagfyr 2022. Mae'r holl ffigurau yn gyfwerth ag amser llawn.




[East Midlands etc...] Dwyrain Canolbarth Lloegr / Dwyrain Lloegr / Manceinion Fwyaf / Caint, Surrey a Sussex / Llundain / Gogledd-ddwyrain Lloegr / Gogledd-orllewin Lloegr / Canol De Lloegr / De-orllewin Lloegr / Cymru / Gorllewin Canolbarth Lloegr / Swydd Efrog a'r Humber
[Actual Staff] Staff Gwirioneddol [Vacancies] Swyddi gwag

### Recriwtio

Yn dilyn ymgyrch recriwtio genedlaethol gan HMPPS sicrhawyd 2,626 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn ymgymryd â hyfforddiant swyddogion prawf PQiP ar 31 Mawrth 2023 (naid o 659 o gymharu â'r chwarter blaenorol). Mae'r rhaglen hyfforddi yn para am 15 neu 21 mis (yn ddibynnol ar addysg flaenorol mewn troseddeg neu bynciau tebyg) felly mae'r data ar pryd y bydd yr hyfforddeion yn cymhwyso (os byddant yn llwyddiannus) yn amrywio.

Ym mhob rhanbarth, mae mwy o staff cyfwerth ag amser llawn yn hyfforddi i fod yn swyddogion prawf na'r nifer o swyddi gwag swyddogion prawf sydd ar gael. Unwaith eto, mae hyn yn amrywio yn ôl rhanbarth. Er bod nifer y PQiP bron yn gyfwerth â'r nifer o swyddi gwag presennol sydd ar gael ar gyfer swyddogion prawf yn Llundain (295 yn hyfforddi a 293 swydd wag), mae bron (2.7) PQiP yn hyfforddi ar gyfer pob swydd wag (321 yn hyfforddi a 120 swydd wag) yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Wrth ddadansoddi'r data hwn, mae'n bwysig nodi bod y gyfradd tynnu'n ôl[3] o'r hyfforddiant PQiP yn 2021/2022 (y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer) bron yn un o bob chwech (16 y cant).

### Cadw

Hyd yma, nid yw'r cynnydd sylweddol yn y nifer o swyddogion prawf dan hyfforddiant wedi cael llawer o effaith ar y lefelau staffio cyffredinol. Un rheswm am hyn yw bod y nifer o staff sydd wedi gadael y gwasanaeth hefyd wedi cynyddu'n sylweddol. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023, roedd 2,098 aelod o staff wedi gadael y Gwasanaeth Prawf, cynnydd o 10

[3] Mae'r gyfradd tynnu'n ôl yn cyfeirio at y rhai sydd wedi gadael cwrs PQiP ac sydd wedi aros yn HMPPS mewn rôl nad yw'n un PQiP a hefyd y rhai sydd wedi gadael HMPPS yn gyfan gwbl.

y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y gyfradd ymddiswyddo ar gyfer y Gwasanaeth Prawf yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 oedd saith y cant, yr union ganran â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cyfraddau ymddiswyddo yn amrywio rhwng y bandiau; roedd y gyfradd ymddiswyddo uchaf ymhlith PSO ar 9.7 y cant. Roedd y gwasanaeth hefyd yn colli mwy o'i staff profiadol. Roedd gan bron i ddwy ran o dair (66 y cant) o'r 359 swyddog prawf a adawodd y gwasanaeth yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 bum mlynedd neu fwy o brofiad yn y swydd.

**Salwch**

Ffactor arall sy'n cael effaith andwyol ar lwyth gwaith staff yw'r nifer cynyddol o ddyddiau y mae staff yn absennol oherwydd salwch. Yn y flwyddyn ariannol 2022/2023, ar gyfartaledd, roedd staff prawf yn cymryd 12.7 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch fesul person, gwelliant bychan o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol o 12.9 diwrnod. Roedd y cyfraddau salwch yn amrywio o 10 diwrnod y flwyddyn yn rhanbarth De-orllewin Lloegr i 16.7 diwrnod yn Llundain. Yr hyn sy'n destun pryder, i swyddogion prawf, roedd dros hanner (55 y cant) o'r dyddiau a gollwyd i salwch yn y flwyddyn ariannol 2022/23 o ganlyniad i faterion iechyd meddwl – cynnydd o 43 y cant yn 2017, ac mae'n adlewyrchiad o'r straen y mae llawer o'r aelodau o staff yn ei deimlo.

## Y profiad ar lawr gwlad

Soniodd rheolwyr yn y rhan fwyaf o'r Unedau Cyflawni Prawf am eu trafferthion parhaus gyda nifer annigonol o staff, ond mewn lleiafrif sylweddol o Unedau, yn arbennig yn ystod yr arolygiadau mwy diweddar, mae rheolwyr wedi dweud bod y lefelau staffio yn gwella. Dywedodd ymarferwyr mewn tair Uned bod llwyth achosion yn *"sylweddol is"* na phan oeddent yn gweithio i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Roedd nifer o'r rhanbarthau a arolygwyd gennym wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol mewn ymgyrchoedd recriwtio, gyda llwyddiant amrywiol. Er bod rhai ardaloedd wedi llwyddo i recriwtio swyddogion prawf cymwys a dan hyfforddiant, cyfeiriodd eraill at ymgyrchoedd recriwtio aflwyddiannus. Un broblem gyffredin oedd y cyfraddau gadael uchel ymhlith y bobl a oedd yn gwneud cais am y rolau swyddogion y gwasanaeth prawf yn benodol. Dywedodd nifer o'r Unedau Cyflawni Prawf eu bod wedi gweld cyfradd uchel yn gadael yn ystod y cyfnod rhwng rhoi enw unigolyn ar y rhestr fer a'r dyddiad dechrau yn eu swydd. Cyfeiriodd y rheolwyr at ddwy brif broblem: oedi yn y model adnoddau rhanbarthol a phroses fetio araf iawn, lle gallai penodai benderfynu derbyn swyddi gyda sefydliadau eraill yn hytrach nac aros *"am fisoedd"* i allu dechrau gweithio yn y Gwasanaeth Prawf.

Roedd cadw staff a oedd newydd gael eu recriwtio yn broblem hefyd i rai Unedau Cyflawni Prawf (dywedodd Gwent bod bron i ddwy ran o dair o PSO wedi gadael y swydd o fewn blwyddyn o gael eu penodi, ac mae Barking, Dagenham a Havering hefyd wedi nodi cyfraddau gadael uchel ymhlith hyfforddeion PQiP). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn digwydd ym mhobman – er enghraifft roedd rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr wedi llwyddo i gadw 94 y cant o'u PQiP un flwyddyn ar ôl cael eu recriwtio.

Dywedodd llawer o PQiP wrth ein harolygwyr eu bod wedi cael anhawster dysgu'r swydd a chael cefnogaeth dda gan eu cydweithwyr am ddau brif rheswm. I ddechrau, roedd y rhai a oedd wedi cymhwyso yn ystod y pandemig yn aml yn gweithio ac yn gwneud eu hyfforddiant o bell; ac, yn ail, pan oeddent yn y swyddfa, roedd llai o'u cydweithwyr ar gael i ofyn am eu cyngor. Y trefniadau gweithio cymysg oedd y rheswm am hyn, a oedd yn golygu bod staff yn gweithio o gartref am ran o'r wythnos ym mhob ardal, ac oherwydd bod y rhai a oedd yn bresennol yn brysur iawn oherwydd prinder staff a llwyth gwaith uchel.

Ond roedd ein harolygwyr wedi'u calonogi o weld bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn hyfforddiant wyneb yn wyneb ers diwedd y pandemig.

Mae’r model cymysg (sef y model busnes prif ffrwd erbyn hyn) yn golygu, i bob aelod o staff, bod y gofyniad i gynnal unrhyw oruchwyliaeth wyneb yn wyneb, sydd fel arfer yn ystod dim ond tri diwrnod yn y swyddfa, yn eu rhoi o dan bwysau ac mae’n golygu y gellir lleihau llawer ar y cyfleoedd i drafod achosion gyda chydweithwyr.

Roedd rhai PDU hefyd wedi colli staff presennol nad oeddent yn dymuno dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb ar ôl i gyfyngiadau’r pandemig ddod i ben ac ar ôl i’r modelau gweithredu arferol ailddechrau.


Yn ogystal â’r prinder cronig yn nifer y staff swyddogion prawf, dywedodd y rhan fwyaf o’r rhanbarthau wrth yr arolygwyr am y cyfraddau swyddi gwag uchel yn y timau gweinyddol.

## Llwyth gwaith

Elfen graidd o’n harolygiadau o Unedau Cyflawni Prawf yw ein cyfweliadau gyda staff;  fe wnaethom gyfweld â chyfanswm o 887 ymarferydd prawf ar draws y 31 Uned sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn a holwyd pob un ohonynt am eu llwyth achosion. Holwyd yr arolygwyr i ddechrau am y nifer o achosion yr oedd pob ymarferydd cyfwerth ag amser llawn yn gyfrifol amdanynt.  Er bod gan dros eu hanner (51 y cant) lwyth gwaith o 40 neu lai – roedd gwahaniaeth amlwg rhwng llwyth gwaith swyddogion prawf a PSO.  Mae ychydig o dan un o bob 10 (naw y cant) o'r swyddogion prawf y buom yn eu cyfweld ers ail-uno wedi cael mwy na 50 o achosion. Roedd llwythi achosion PSO yn sylweddol uwch – roedd gan fwy na hanner (53 y cant) fwy na 50 o achosion ac roedd gan 33 y cant o’r rhain fwy na 61. Roedd yn galonogol mai dim ond tri y cant o swyddogion prawf dan hyfforddiant oedd â llwythi achosion o fwy na 40.

Mae’n ymddangos bod llwyth achosion cyfartalog swyddogion prawf wedi lleihau ers yr ail-uno, yn arbennig i staff yr hen Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol.  Cyn ail-uno, canfu ein harolygiadau bod gan 52 y cant o swyddogion prawf y Cwmnïau a 72 y cant o PSO y Cwmnïau lwyth achosion o dros 50.

Siart 4: Canfyddiadau llwyth gwaith swyddogion prawf




[Pre-unification NPS] Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol cyn-uno [Pre-unification CRC] Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol cyn-uno [Pre-unification (total)] Cyn-uno (cyfanswm) -Post-unification] Ar ôl uno [POS with...] POS gyda > 50 o achosion [Caseloads...] 'Anodd rheoli' llwyth achosion

Er gwaethaf y gostyngiad mewn llwyth achosion (gostyngiad sylweddol i gyn aelodau o staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol), dim ond un o bob 20 ymarferydd (pump y cant) oedd o'r farn bod eu llwyth gwaith yn "*rhwydd iawn i'w reoli"* a dim ond traean pellach (34 y cant) a ddisgrifiodd eu llwyth gwaith "*eithaf rhwydd i'w reoli"* a dywedodd mwy na chwarter (27 y cant) "*nid yw'n rhwydd o gwbl".* Er gwaethaf y gostyngiad ymddangosiadol mewn llwyth achosion, mae'n ymddangos bod canfyddiadau pobl am "*y gallu i reoli*" yn gostwng – dywedodd 68 y cant o swyddogion prawf a 62 y cant o PSO bod eu llwyth achosion yn un o'r categorïau 'ni ellir ei reoli' hyn (er mai dim ond 33 oedd hyn i hyfforddeion, sydd ag uchafswm llwyth achosion). Un rheswm posibl am hyn yw oherwydd bod natur llwyth achosion ymarferwyr sy'n gweithio yn y gymunedol wedi newid ers i ddiwygiadau OMiC drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros nifer sylweddol o achosion i swyddogion prawf sy'n gweithio mewn carchardai. O ganlyniad i hyn, er bod y niferoedd cyfartalog o lwyth achosion wedi gostwng, mae'r achosion sy'n parhau ym mhob llwyth achos yn fwy tebygol o fod yn y gymuned nac yn y ddalfa a bydd hynny'n galw am lawer mwy o gyswllt.

Er bod y data yn awgrymu bod llwyth achosion yn dechrau lleihau, roedd rheolwyr a staff yn y mwyafrif o'r Unedau Cyflawni Prawf yn parhau i gyfeirio at lwyth achosion uchel iawn i rai aelodau o staff. Roedd yr ymarferwyr hyn yn gweithio ym mhell uwchben eu huchafswm llwyth gwaith, weithiau ar 150 y cant neu fwy o'u llwyth gwaith targed. Cyfeiriodd y staff a gyfwelwyd gan arolygwyr at y straen yr oedd y llwythi gwaith uchel hyn yn ei achosi:

> *"Nid wyf yn gwybod a yw'r staff yn ymdopi. Mae yna lawer o ewyllys da mewn timau a dyma'r unig beth sy'n ein cadw i fynd. Mae safon y gwaith wedi gostwng ychydig, mae staff yn ymrwymo'r oriau ychwanegol ac mae rhai pobl wedi bod yn sâl iawn ac mae hyn yn peri pryder mawr i mi. Rydym i gyd yn yr un sefyllfa a phe byddwn i'n mynd yn sâl byddai fy llwyth achosion yn cael ei drosglwyddo i gydweithwyr hefyd. Rydym i gyd o dan bwysau mawr gyda'n gilydd, a dyna sy'n ein cadw i fynd."*

Uned Cyflawni Prawf Gorllewin Caint

> *"Nid yw goramser ar gael ac mae angen i staff (gwaith di-dâl) weithio gyda'r nos neu ar benwythnosau er mwyn cynnal y llwyth gwaith."*

Caerlŷr, Uned Cyflawni Prawf Swydd Gaerlŷr a Rutland

> *"Rydym yn gorfod delio â'r sefyllfa, rydym yn gwybod beth yw'r blaenoriaethau, ac yna mae gennym bobl yn dod atom yn eu dagrau, ac mae'n rhaid i ni benderfynu, ein gwaith ni yw diogelu'r cyhoedd a dioddefwyr ond mae popeth yn boen oherwydd bod pethau'n wahanol. Mae angen i ni wneud y gwaith gorau y gallwn, a beth yw'r flaenoriaeth, wel gwneud yn siŵr bod ein staff yn iach a'n bod yn diogelu'r cyhoedd. Ni yw wyneb dynol y polisi."*

Uned Cyflawni Prawf Gorllewin Sussex

> *"Mae'r llwyth gwaith yn enfawr, weithiau rwy'n teimlo nad yw gweinyddwyr yn cael eu gwerthfawrogi cymaint ag y dylem, rydym yn cyflawni swm aruthrol o waith sydd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gennym ac nid ydym yn derbyn cydnabyddiaeth am hynny."*

Uned Cyflawni Prawf Gwent

I gydnabod y pwysau sy'n cael ei achosi gan y nifer uchel o swyddi gwag a llwyth achosion uchel, cyflwynodd HMPPS fframwaith blaenoriaethu yn Ionawr 2022, a oedd yn galluogi i rai tasgau gael eu hoedi neu eu hisraddio ac i safonau cenedlaethol gael eu gohirio. Pan fydd lefelau staffio yn 70 y cant neu'n is ac mae llwyth gwaith dros 120 y cant o'r lefelau targed, gall cyfarwyddwyr symud eu gweithrediadau i statws 'oren'. Mewn amodau mwy eithafol pan fydd staffio yn 60 y cant neu'n is na'r targed staff mewn Uned Cyflawni Prawf neu ranbarth, gall yr ardal wneud cais i'r Prif Swyddog Prawf am statws blaenoriaeth 'coch'. Mae hyn, er enghraifft yn galluogi i:

- safonau cenedlaethol gael eu gohirio
- cysylltiadau wyneb yn wyneb gael eu gohirio ar gyfer achosion risg isel a chanolig (ac eithrio achosion cam-drin domestig risg uwch)
- oedi adolygiadau arferol y System Asesu Troseddwyr yn 12 wythnos olaf gorchymyn ar gyfer achosion risg is
- staff OMiC gael eu hadleoli yn ôl yn y gymuned ac oedi rhaglenni achrededig.

Ar draws yr 31 arolwg Unedau Cyflawni Prawf sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, roedd pedwar ohonynt yn gweithredu ar statws 'coch' ar y fframwaith blaenoriaethu ar adeg eu harolwg a 10 ar statws 'oren'. Mae hyn wedi cael effaith anochel ar ansawdd y gwaith rydym wedi'i weld yn ein harolygiadau o achosion unigol (rhoddwyd sgôr 'Annigonol' i bob un o'r pedair Uned a oedd yn gweithredu ar statws coch). Mae arolygwyr yn bryderus ynglŷn â'r hyd o amser y mae rhai o'r Unedau wedi parhau ar statws coch neu oren a'r effaith hirdymor y mae hyn wedi'i chael ar berfformiad busnes fel arfer ac ar ddychwelyd i lefel foddhaol. Nid oedd gan lawer o ardaloedd fap llwybr clir i'w dychwelyd i statws 'gwyrdd' ac roedd staff yn aml yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â'r tasgau rheoli dedfrydau y gofynnwyd iddynt eu hoedi neu eu dad-flaenoriaethu mewn statws coch neu oren (neu nid oeddent yn deall hyn yn llwyr). Roedd gweithredu'r fframwaith yn golygu nad oedd gwaith prawf pwysig yn cael ei wneud, ac nid oedd camau gweithredu digonol yn cael eu cymryd yn sgîl hyn i fynd i'r afael â'r materion pwysig o lefelau staff annigonol, llwyth gwaith uchel a'r angen i ddarparu mwy o oruchwyliaeth a chefnogaeth i staff amhrofiadol. Roedd rhai ardaloedd, er enghraifft Manceinion Fwyaf, wedi gwneud penderfyniad bwriadol i beidio

gweithredu'r fframwaith blaenoriaethu cenedlaethol, ac yn hytrach roeddynt wedi datblygu eu trefniadau mwy hyblyg eu hunain.  Canfuom, er bod heriau staffio o hyd, bod gan staff yno ddealltwriaeth glir o'r hyn yr oedd angen iddynt ei gyflawni.

Dywedodd staff mewn rhai ardaloedd eu bod wedi blaenoriaethu asesiadau'r System Asesu Troseddwyr am eu bod yn cael eu mesur yn ganolog, a bod gwaith i gefnogi pobl ar brawf wedi dioddef o ganlyniad i hynny.  Roedd staff mewn ardal arall wedi gweithredu i'r gwrthwyneb, gan benderfynu peidio cynnal asesiadau'r System Asesu Troseddwyr sy'n cymryd llawer o amser i'w gwneud, mewn ymgais i dreulio mwy o amser gyda phobl ar brawf.

## Goruchwyliaeth

Yn ogystal â'r diffyg staff mewn rolau rheng flaen, roedd y rhan fwyaf o ardaloedd wedi profi anhawster gyda phrinderau uwch swyddogion prawf (SPO), er bod data cenedlaethol yn awgrymu bod 186 yn fwy o SPO yn eu swydd ar 31 Mawrth 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Yng nghyfweliadau ein harolygwyr gyda staff, trafodwyd y ffaith bod uwch swyddogion prawf yn gyfrifol am reoli nifer fawr o ymarferwyr prawf.  Roeddent yn dweud bod hyn wedi arwain at 'linell amddiffyn gyntaf' wan yn erbyn y camgymeriadau y gallai ymarferwyr newydd a dibrofiad fod yn eu gwneud, a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer goruchwyliaeth a hyfforddiant myfyriol.

Ategwyd y diffyg goruchwyliaeth hwn gan farn ein harolygwyr ar effeithiolrwydd goruchwyliaeth gan reolwyr. Yn y 1,400 o achosion a arolygwyd ganddynt ar draws y 31 Uned Cyflawni Prawf lle'r oedd angen yr oruchwyliaeth honno, barnodd yr arolygwyr ei bod yn effeithiol mewn llai na thri o bob 10 achos (29 y cant). Barnwyd ei fod yn 'annigonol, yn aneffeithiol neu'n absennol' yn y 72 y cant arall o achosion.

Mae'r enghreifftiau o'r diffyg goruchwyliaeth hwn a rannwyd gyda'n harolygwyr yn cynnwys:

- Uwch swyddogion prawf yn cymeradwyo asesiadau'r System Asesu Troseddwyr heb eu darllen yn fanwl
- nid yw uwch swyddogion prawf ar gael i ymgynghori â hwy ar faterion gwaith achosion pwysig
- mae deiliaid swydd uwch swyddogion prawf yn newid yn aml, ac yn aml byddwn ond yn y swydd ar sail dros dro
- goruchwyliaeth yn canolbwyntio mwy ar brosesau nac ansawdd.

Fodd bynnag, y pryder mwyaf difrifol oedd bod llai o oruchwyliaeth staff yn cael ei chyflawni.  Dywedodd staff mewn gwahanol Unedau Cyflawni Prawf bod goruchwyliaeth ond yn cael ei chynnal bob wyth wythnos weithiau.  Dywedodd un tîm llys nad oedd goruchwyliaeth ffurfiol wedi'i chynnal am flwyddyn a mwy.

Roedd yr uwch swyddogion prawf eu hunain yn dweud wrth yr arolygwyr ei bod yn anodd ymdopi â'u holl gyfrifoldebau; dywedodd nifer bod eu hymrwymiadau adnoddau dynol yn cynrychioli swm anghymesur o'u hamser yn yr wythnos waith. O ganlyniad, nid oeddent ar gael i ymarferwyr prawf i'r graddau y byddent wedi dymuno.

# Casgliad

Bydd perfformiad y gwasanaeth prawf yn parhau i gael ei lesteirio nes bod lefelau staffio'n gwella a llwythi gwaith yn gostwng. Fel y gwelsom, mae rhai arwyddion gobeithiol o welliant. Mae nifer cynyddol o hyfforddeion a swyddogion prawf sydd newydd gymhwyso wedi ymuno â'r gwasanaeth, ac mae tystiolaeth bod llwythi achosion wedi gostwng ers ail-uno.

Er hynny, mae'r lefelau salwch yn parhau i fod yn uchel, ac mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r staff yn credu na allant reoli eu llwythi gwaith yn dangos yr effaith y mae dau ad-drefniant strwythurol mawr a diffyg staffio cronig wedi'i chael ar y gweithlu prawf.

Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, bydd angen i'r rhanbarthau prawf gefnogi staff sefydledig a staff newydd i'w cadw yn eu swyddi wrth i recriwtiaid newydd ymuno a'r strwythurau newydd sefydlogi.  Mae rhai arwyddion y gallai dyfarniad cyflog tymor hir (a fyddai'n werth £5000 ychwanegol y flwyddyn i swyddogion prawf a £3500 ychwanegol ar gyfer uwch swyddogion prawf erbyn 2024/2025) gael effaith ar y cyfraddau gadael.  Ond mae'n ymddangos mai gorweithio a straen staff, yn hytrach na chyflogau, yw'r prif reswm pam fod staff profiadol yn gadael y gwasanaeth; felly roeddem yn falch o weld bod strategaeth newydd y gweithlu prawf (2023-2025) yn pwysleisio pwysigrwydd hybu llesiant staff a denu a chadw pobl alluog.

Trown ein sylw yn awr at y graddau y gall y staff prawf presennol fynd i'r afael ag anghenion pobl ar brawf.

# Pennod 3: Anghenion pobl ar brawf

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dechrau drwy gyflwyno dadansoddiad manwl o anghenion pobl ar brawf a'r graddau y mae'r Gwasanaeth Prawf yn cyflawni'r anghenion hynny ar hyn o bryd. Yna rydym yn trafod cyflwyno trefniadau newydd y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir, cyn cyflwyno ein canfyddiadau ar weithrediad y rhaglenni gwaith di-dâl ac achrededig. Rydym yn gorffen yr adran hon drwy rannu safbwyntiau pobl sydd ar brawf eu hunain.


## Asesu a chyflawni anghenion

Mae ein harolygwyr yn nodi'r ffactorau pwysicaf sy'n gysylltiedig â throseddu ym mhob achos maent yn eu harolygu o restr o naw sy'n deillio o'r System Asesu Troseddwyr. Y nifer gyfartalog o ffactorau a nodwyd ar gyfer pob unigolyn oedd pedwar a hanner. Yn ogystal â ffactorau troseddeg, er enghraifft ffordd o feddwl ac ymddygiad, ffordd o fyw ag agweddau at droseddau, roedd gan niferoedd sylweddol o bobl ar brawf anghenion mewn cysylltiad â'u camddefnydd o gyffuriau (48 y cant), camddefnyddio alcohol (45 y cant), tai (35 y cant) a dyledion (31 y cant).

Y prif reswm pam y mae arolygwyr yn nodi anghenion yn yr achosion a arolygir ganddynt yw er mwyn gwirio a yw'r anghenion hyn yn cael eu cyflawni ai peidio. Mae Siart 5 yn dangos a oedd arolygwyr yn fodlon bod gwasanaethau digonol yn cael eu darparu ar gyfer pob un o'r ffactorau a nodwyd mewn achos penodol. Mae'n bwysig cofio bod gan y mwyafrif o bobl ar brawf anghenion lluosog.

Ar gyfer anghenion sy'n gysylltiedig â llety, nododd arolygwyr bod gwasanaethau digonol mewn 43 o achosion. Y rhai a oedd yn gysylltiedig â ffordd o fyw (digonol mewn dim ond 17 y cant o achosion) ac agweddau at droseddu (18 y cant) oedd y rhai lleiaf tebygol o gael eu cyflawni.

Siart 5: Darpariaeth ddigonol yn erbyn math unigol o angen (n = 1,509 o achosion a arolygwyd ar draws 10 rhanbarth)




[Lifestyle] Ffordd o Fyw [Attitudes to offending] Agweddau at droseddu [Finance..] Cyllid, Budd-daliadau a dyled [Family and...] Teulu a Pherthnasoedd [Alcohol..] Camddefnyddio alcohol [ETE] Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg[Drug..] Camddefnyddio Cyffuriau [Thinking..] Ffordd o feddwl ac ymddygiad [Accommodation] Llety [Needs met] Anghenion wedi'u cyflawni

## Anghenion yn ôl rhyw

Canfu ein harolygwyr bod menywod yn llawer mwy tebygol o dderbyn gwasanaethau digonol i gyflawni eu hanghenion ar gyfer yr holl ffactorau ac eithrio Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg.

Siart 6: Darpariaeth ddigonol yn erbyn anghenion – cymhariaeth yn ôl rhyw




[Attitudes] Agweddau [Thinking] Ffordd o feddwl [Drugs] Cyffuriau [Alcohol] Alcohol [Lifestyle] Ffordd o Fyw [Family] Teulu [Finance] Cyllid [ETE] Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg [Accommodation] Llety [Female] Benyw [Male] Gwryw

## Anghenion yn ôl ethnigrwydd

Ym mhob un o'n harolygiadau, rydym yn cofnodi cefndir ethnig yr achosion y byddwn yn eu harolygu i nodi unrhyw wahaniaeth hiliol mewn ymarfer prawf.  Er mwyn gosod canfyddiadau'r arolwg mewn cyd-destun, rydym yn rhannu casgliadau ein harolwg thematig o gydraddoldeb hil yn y gwasanaeth prawf <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/race-equality-in-probation-follow-up/>, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023. Roedd hyn yn dilyn ymlaen o arolygiad blaenorol <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/race-equality-in-probation/> a gynhaliwyd yn 2021. Canfu ein harolygwyr, er bod uwch arweinwyr wedi

arddangos ymrwymiad clir i symud argymhellion ein hadroddiad blaenorol yn eu blaenau, cynnydd cyfyngedig a welwyd wrth wreiddio ymarfer effeithiol neu wella lefelau boddhad staff ethnig lleiafrifol.

Gofynnodd arolygwyr ein harolygiad thematig yn benodol i reolwyr nodi achosion lle bu arfer da. Ond yn y 50 achos a arolygwyd gennym, ychydig iawn o dystiolaeth oedd i'w gweld o hyd bod y staff prawf wedi siarad gyda phobl ethnig leiafrifol ar brawf am eu hethnigrwydd, diwylliant, crefydd a'u profiadau o wahaniaethu, neu ymyriadau arfaethedig a oedd yn ymateb i'r ffactorau amrywiaeth hyn. Cadarnhaodd pobl ar brawf amharodrwydd yr ymarfer prawf i'w holi ynglŷn â materion ffydd a diwylliant.

Dangosodd data o'n rhaglen ehangach o arolygu Unedau Cyflawni Prawf bod y prosesau asesu, cynllunio, gweithredu a chyflenwi yn waeth i bobl ethnig leiafrifol ar brawf o gymharu â phobl wyn. Darperir ffigurau manwl isod. Fodd bynnag, ni chanfu'r arolygwyr unrhyw dystiolaeth unrhyw anghymesuredd yn y defnydd o orfodi a thorri amodau.

Yn ein sampl o'r arolygon thematig, dywedodd dwy ran o dair o gyfranogwyr bod ganddynt berthynas effeithiol ac ymddiriedus gyda'u hymarferydd. Ond ni chanfu'r arolygwyr lawer o arfer effeithiol ar gydraddoldeb hil.

Ni fabwysiadodd y gwasanaethau prawf ddull strategol o ddiwallu anghenion pobl o leiafrifoedd ethnig ar brawf. Roedd nifer y gwasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar brawf wedi gostwng, ac ychydig o gysylltiadau oedd gan ymarferwyr prawf â sefydliadau yn y gymuned sy'n cefnogi adsefydlu unigolion o leiafrifoedd ethnig yn benodol.

Yn siomedig, ychydig iawn o raglenni hyfforddiant sy'n galluogi ymarferwyr i weithio'n effeithiol gyda phobl o wahanol gefndiroedd, ac anaml y caiff hyn ei gynnwys mewn goruchwyliaeth fyfyriol gyda rheolwyr llinell.

Roedd y lefelau anfodlonrwydd a ganfu arolygwyr ymhlith llawer o staff ethnig lleiafrifol yn peri pryder, er bod rhai gwelliannau yn y sgorau ar ein harolwg staff. Clywodd yr arolygwyr rai adroddiadau trallodus gan unigolion am reolaeth wael, gwahaniaethu, pryderon wedi'u hanwybyddu, a diffyg anogaeth i symud ymlaen. Canfu ein harolwg mai ychydig o staff lleiafrifoedd ethnig yr ymgynghorwyd â hwy neu y rhoddwyd cymorth iddynt pan ddyrannwyd achosion o droseddwyr â chymhelliant hiliol.

Nid yw HMPPS wedi cytuno ar weithdrefnau cwyno diwygiedig o hyd a chanfuom fod llawer o staff ethnig lleiafrifol ofn mynegi eu pryderon. Mae'r rhai sy'n gwneud cwynion yn ddieithriad yn anfodlon ar y canlyniad.

Yn fwy cadarnhaol, mae gwelliannau o ran y nifer o staff ethnig lleiafrifol sy'n symud i swyddi rheolwyr canol, a cheir enghreifftiau cadarnhaol o reolwyr yn creu diwylliant mwy cynhwysol. Mae rhaglenni hyfforddiant newydd addawol wedi'u datblygu ar gyfer rheolwyr.

Mae data gwell ar gael i reolwyr gwasanaeth ar anghymesuredd staffio a darparu gwasanaethau, ac mae angen trawsnewid hyn yn awr yn wybodaeth i weithredu. Nid yw mynd i'r afael â chydraddoldeb hili yn ateb cyflym, ond hoffem weld HMPPS yn blaenoriaethu ac yn cyflymu cynnydd yn y maes hwn.

Gan ddychwelyd at ein data ar yr arolygiadau o Unedau Cyflawni Prawf, canfu ein harolygwyr bod cyflawni yn erbyn anghenion yn amrywio'n sylweddol yn ôl grŵp ethnig yr unigolyn ar brawf. Mae'r data'n datgelu darlun cymysg. Yn nhermau'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n bennaf gan y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir neu ddarparwyr allanol eraill, roedd anghenion camddefnyddio alcohol a chyffuriau pobl Ddu yn llawer llai tebygol o gael eu cyflawni o gymharu â'u cyfoedion gwyn Prydeinig. Roedd pobl o gefndiroedd ethnig cymysg yn fwy tebygol o gael eu hanghenion llety, Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg a chyllid, budd-daliadau a dyled wedi'u cyflawni na'r holl grwpiau

ethnig eraill  Roedd anghenion llety pobl Asiaidd yn llawer llai tebygol o gael eu cyflawni nac unrhyw grŵp ethnig arall.

Yn nhermau rheolwyr troseddwyr yn cyflawni yn erbyn anghenion, roedd yn llawer llai tebygol i anghenion pobl ddu o ran teulu a pherthnasoedd, ffordd o fyw, ffordd o feddwl ac ymddygiad a'u hagweddau at droseddu gael eu cyflawni o gymharu â phobl wyn.  Roedd anghenion alcohol, ffordd o feddwl ac ymddygiad ac agweddau at droseddu pobl Asiaidd yn llawer mwy tebygol o gael eu cyflawni nac unrhyw grŵp ethnig.

## Canlyniadau

Hyn yn hyn, mae ein fframwaith arolygu wedi canolbwyntio ar ansawdd ymarfer proffesiynol gan wasanaethau ac ymarferwyr unigol.  Rydym yn canolbwyntio ar hyn yn y gobaith y bydd hyn, yn ei dro, yn creu canlyniadau gwell i'r bobl sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf.  Felly, ers yr ail-uno, rydym wedi dechrau olrhain y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni gan bobl ar brawf yn ystod misoedd cyntaf eu goruchwyliaeth gan y gwasanaeth.  Mae hyn wedi cynnwys aildroseddu a statws Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg tua chwe mis yn ddiweddarach, o ystyried y cysylltiadau rhwng y ffactorau hyn ac aildroseddu yn y dyfodol (er ein bod yn cydnabod y gallai gymryd llawer mwy o amser i gyflawni neu fesur ymataliaeth rhwng troseddu).


Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn gwaith dadansoddi ac ymchwil sy'n profi pan fydd gwaith prawf yn cael ei wneud yn dda, ei fod yn cael effaith arwyddocaol ar gyfraddau aildroseddu, gan eu lleihau 14 pwynt canran.  Rydym yn darparu rhagor o wybodaeth am yr ymchwil hwn yn y blwch isod:

Mewn Bwletin Ymchwil a Dadansoddi a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023, rydym yn archwilio'r berthynas rhwng dyfarniadau arolygwyr ar ansawdd y ddarpariaeth a mesurau allbwn/canlyniad diweddarach ar ffurf cwblhau dedfryd a phrofi aildroseddu.

Er mwyn asesu canlyniadau aildroseddu (bydd ond yn bosibl eu canfod dwy flynedd ar ôl dechrau cyfnod goruchwyliol), archwiliodd yr astudiaeth hon 3,308 o achosion a arolygwyd rhwng Mehefin 2018 a Mehefin 2019, a oedd yn cwmpasu'r 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol a saith isadran y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar y pryd.

Datgelodd dadansoddiad gysylltiadau sy'n arwyddocaol yn annibynnol rhwng dyfarniadau arolygwyr ar ansawdd gweithredu/cyflawni a chwblhau dedfrydau ac aildroseddu profedig. Yn yr achosion hynny pan oedd ein harolygwyr o'r farn bod y dull cyflawni yn cynnwys yr unigolyn ar brawf ac yn cefnogi eu hymataliad, roedd y gyfradd cwblhau dedfrydau 24 pwynt canran yn uwch ac roedd y gyfradd aildroseddu 14 pwynt canran yn is o gymharu â'r achosion hynny pan oedd y farn ar y naill a'r llall yn negyddol.

Siart 7: Aildroseddu deuaidd yn ôl gweithrediad effeithiol (a lefel y tebygolrwydd o aildroseddu)




[% reoffended] % a aildroseddodd [Low] Isel [Medium] Canolig [High..] Uchel/Uchel Iawn [Likelihood...] Tebygolrwydd o aildroseddu
[Effective...] Gweithrediad effeithiol gyda ffocws ar ymgysylltu â'r unigolyn = Na
[Effective...] Gweithrediad effeithiol gyda ffocws ar ymgysylltu â'r unigolyn = Ie

Ar gyfer y rhai a oedd wedi aildroseddu, canfuom hefyd ostyngiadau yn amlder yr aildroseddu pan oedd y gwasanaeth prawf a ddarparwyd o safon uchel. Gall gostyngiadau yn hytrach nac ymataliad llwyr fod yn fwy realistig i'r rhai â'r hanes ac ymddygiad troseddol mwyaf sefydledig.

Rydym yn dueddol o ailadrodd y dadansoddiad hwn gyda'r achosion yn cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf sydd wedi'i ail-uno a chynnwys y gwelliannau methodolegol ychwanegol.

Er hynny, mae’r neges gyffredinol yn glir – pan roddir amser ac adnoddau i swyddogion prawf gyflawni hyd eithaf eu gallu, mae manteision sylweddol i’r unigolyn o dan oruchwyliaeth ac i’r cyhoedd yn ehangach, gan leihau’n sylweddol nifer y dioddefwyr troseddau yn y dyfodol.

### Canlyniadau llety

Newid cyfyngedig a ganfuom yn statws llety pobl yn ystod y cyfnod yr ydym yn arolygu ein hasesiadau achos lleol (fel arfer tua chwe mis cyntaf goruchwyliaeth brawf o bwynt yr asesiad cychwynnol). Er bod y gyfran o bobl sy’n ddigartref wedi gostwng o chwech y cant i bedwar y cant yn ystod eu goruchwyliaeth, bu gostyngiad hefyd yn nifer y bobl mewn llety sefydlog (o 70 y cant i 68 y cant).


### Canlyniadau cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg

Mae ein sampl o arolygiadau’n awgrymu bod y Gwasanaeth Prawf yn fwy llwyddiannus yn helpu pobl i mewn i waith, hyfforddiant ac addysg. Cynyddodd y gyfran o bobl mewn cyflogaeth llawn amser o 25 y cant i 28 y cant yn ystod eu goruchwyliaeth a gwelwyd cynnydd llai yn y nifer o bobl a ddechreuodd mewn gwaith rhan amser ac mewn addysg rhan amser.

### Dirywiad mewn perfformiad o ran cyflawni anghenion

Er mwyn canfod a yw perfformiad y Gwasanaeth Prawf wrth gyflawni anghenion pobl ar brawf wedi gwella yn y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom gymharu data arolygu o arolygiadau craidd y Gwasanaeth Prawf wedi’i ail-uno gyda data o’r un ardaloedd a gasglwyd yn ystod rownd ddiwethaf arolygiadau’r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o dan y fframwaith *Gweddnewid Adsefydlu*. Mae'n destun pryder adrodd bod y Gwasanaeth Prawf ar ôl yr ail-uno yn llai llwyddiannus o ran diwallu pob math o angen o gymharu â’r Gwasanaeth Prawf cyn ei uno, a fu’n destun beirniadaeth lem. Mae Siart 8 isod yn cymharu’r graddau yr oedd y gwahanol feysydd o angen yn cael eu cyflawni cyn ac ar ôl ail-uno. Nid yw’n amlwg beth oedd effaith y pandemig, y broses ail-uno a materion cofnodi ar y ffigurau hyn.

Siart 8 – Darpariaeth ddigonol yn erbyn anghenion cyn ac ar ôl uno




[Accommodation] Llety [ETE] Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg [Family..] Teulu a pherthnasoedd [Lifestyle] Ffordd o fyw [Alcohol..] Camddefnyddio alcohol [Drug..] Camddefnyddio cyffuriau [Thinking..] Ffordd o feddwl ac ymddygiad [Attitudes..] Agweddau at droseddu
[NPS...] Arolygiadau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Sefydliadau Adsefydlu Cymunedol
[Current...] Arolygiadau presennol

## Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir

Ers Gorffennaf 2021, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi buddsoddi £195 miliwn yn y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir (CRS), a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol i bobl ar brawf. Mae contractau CRC wedi'u dyfarnu ar gyfer ystod o wasanaethau (sy'n mynd i'r afael â'r meysydd angen a drafodwyd uchod). Maent yn cynnwys cyngor ar gyflogaeth a thai, gwasanaethau llesiant a chymorth penodol i fenywod. Mae 100 a mwy o gontractau wedi'u dyfarnu, rhai ar lefel ranbarthol prawf ac eraill ar lefel heddlu lleol[4]. Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaethau newydd hyn wedi amrywio'n sylweddol ar draws yr Unedau Cyflawni Prawf ac mewn gwahanol fathau o wasanaethau. Mae atgyfeiriadau mewn rhai ardaloedd (yn arbennig ar gyfer cyngor tai) wedi bod rhwng 150 a 200 y cant yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Mewn ardaloedd eraill, mae nifer yr atgyfeiriadau wedi bod yn isel iawn, yn arbennig y gwasanaethau llesiant.

Yn eu sgyrsiau gydag arolygwyr, mae ymarferwyr prawf a darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir wedi disgrifio eu problemau cychwynnol gyda'r system newydd, a barhaodd am gryn amser. Er bod yr ymarferwyr a'r darparwyr wedi dweud bod cynnydd sylweddol wedi bod yn ddiweddar, roeddynt yn cytuno bod problemau o hyd yn y broses 'atgyfeirio a monitro' sy'n cael eu defnyddio i gael mynediad at ymyriadau'r Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir (CRS), yn arbennig sut y rhennir gwybodaeth wedi'i diweddaru ar ôl yr atgyfeiriad cychwynnol.

[4] Mae trefniadau comisiynu yn wahanol ym Manceinion Fwyaf a Llundain.

Materion eraill a ddaeth i'n sylw oedd y diffyg mynediad uniongyrchol sydd gan bobl ar brawf i dai (dim ond cyngor a chymorth y gall y rhan fwyaf o'r gwasanaethau eu darparu); diffyg ymyrraeth gyflym i'r rhai mewn angen dybryd; ac, mewn rhai ardaloedd, amharodrwydd ymarferwyr prawf i atgyfeirio pobl i wasanaethau. Un pryder yn benodol i'r uwch reolwyr oedd y diffyg data ar ganlyniadau er mwyn hysbysu gwaith comisiynu yn y dyfodol.

Er bod rôl gadarnhaol iawn yn bosibl i'r sector gwirfoddol mewn partneriaeth â'r gwasanaeth prawf, mae angen mynd i'r afael â nifer o faterion allweddol er mwyn gallu cyflawni hynny. Mae'r rhain yn cynnwys

- mwy o eglurder ynglŷn â rolau perthnasol staff prawf ac ymarferwyr statudol ac ymarferwyr y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir
- proses cyfnewid gwybodaeth fwy cyflawn a chyflym gan y naill barti a'r llall
- fframwaith comisiynu sy'n rhoi llawer mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth i arweinwyr gwasanaeth lleol i gyflawni anghenion lleol, penodol eu llwyth achosion
- ffocws ar ganlyniadau gwirioneddol, ymarferol a mesuradwy yn hytrach na dim ond cyfeirio pobl ar brawf at wasanaethau a allai eu helpu.

Ychydig iawn o waith partneriaeth gwirioneddol a welsom ac rydym o'r farn bod perthnasoedd a chydweithrediaeth cryf yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl ar brawf yn derbyn mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae adfywio gwaith partneriaeth rhwng y staff prawf a staff y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir yn allweddol er mwyn gwella'r sefyllfa. Canfu ein harolygwyr bod cyd-leoli staff prawf a staff y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir yn aml yw'r ffactor pwysicaf sy'n cyfrannu at waith partneriaeth gwell, a gobeithiwn weld mwy o wasanaethau wedi'u cydleoli yn ein harolygiadau yn y dyfodol.

## Gwaith di-dâl

Mae gwaith di-dâl, a elwir hefyd yn 'gwneud iawn â'r gymuned', yn ofyniad dedfryd y gall y llysoedd ei gynnwys mewn gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfryd ohiriedig, a dylid ei gwblhau o fewn 12 mis. Prif ddiben gwaith di-dâl yw darparu cosb a gwneud iawn. Mae'r unigolyn ar brawf yn gweithio ar brosiectau o fudd cymunedol sy'n rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol sy'n cefnogi eu hymataliad.

Mae ôl-groniadau o waith di-dâl heb ei gyflawni yn parhau i fod yn her i'r holl ranbarthau prawf a arolygwyd gennym, wrth iddynt barhau i addasu i effaith y pandemig coronafeirws pan gafodd yr holl waith di-dâl ei ohirio fwy neu lai. Roedd effaith y pandemig yn amlwg am gyfnod hir ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben. Er enghraifft, ni chafodd y cyfyngiadau ar gludo pobl ar brawf mewn faniau i wneud gwaith di-dâl eu codi hyd at fis Mawrth 2022. Rydym wedi parhau i ganfod ôl-groniadau sylweddol o waith di-dâl; er enghraifft, mewn rhai Unedau Cyflawni Prawf, canfuom fod bron hanner yr oriau gwaith di-dâl heb eu cyflawni ar ôl 12 mis. Fodd bynnag, rydym wedi gweld bod rhanbarthau'n gwneud ymdrech i leihau'r ôl-groniadau hyn.

Ni ddylid diystyru maint yr her a wynebir gan staff gwaith di-dâl. Mae pob rhanbarth prawf wedi cynyddu allbwn gwaith di-dâl i lefelau cyn y pandemig, ond mae'r rhan fwyaf wedi cael anhawster i wneud cynnydd sylweddol i'r ôl-groniadau hyn. Mae'r dasg hon wedi'i gwaethygu gan gyfraddau uchel o swyddi gwag. Mewn rhai rhanbarthau, mae cynnydd mewn gofynion gwaith di-dâl a wnaed gan y llysoedd wedi rhoi gwasanaethau dan bwysau ychwanegol. Ein prif bryder yw'r nifer uchel o ofynion gwaith di-dâl nad ydynt yn cael eu cwblhau o fewn y cyfnod o 12 mis a nodir gan y gyfraith (oni bai bod y llys yn cytuno i ymestyn).

Mewn rhai ardaloedd, canfu arolygwyr bod arfer gorfodi gwael yn golygu bod llawer o’r gorchmynion y dylid bod wedi’u dychwelyd i’r llys oherwydd diffyg cydymffurfiaeth, yn parhau i fod yn weithredol, gan ddefnyddio adnoddau’n ddiangen.

Mae nifer o strategaethau wedi’u mabwysiadu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol er mwyn ceisio gwneud cynnydd.  Ac yn eu plith roedd:

- ymgyrch genedlaethol i recriwtio 500 aelod o staff gwaith di-dâl yn ystod haf 2022
- swmp-restru achosion i gael estyniadau llys y tu hwnt i'r terfyn 12 mis ar gyfer gorchmynion heb eu cwblhau (ar draws y wlad)
- ffocws o’r newydd ar orfodi er mwyn annog pobl ar brawf i gydymffurfio â’u gofynion gwaith di-dâl
- systemau rheoli data gwell (rhanbarthau Llundain a Gogledd-ddwyrain Lloegr)
- cyflwyno’r fenter Campws Cymunedol yn genedlaethol, sy’n galluogi pobl sy’n gwneud gwaith di-dâl i ymgysylltu mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth a chael hynny wedi’i gofnodi’n ffurfiol yn uniongyrchol ar NDelius, system rheoli achosion y Gwasanaeth Prawf.

## Rhaglenni Achrededig

Mae rhaglenni achrededig – a elwir hefyd yn rhaglenni ymddygiad troseddu – yn ceisio newid y ffyrdd o feddwl, agweddau ac ymddygiad a allai achosi i bobl aildroseddu.  Mae’r rhan fwyaf o raglenni’n cael eu darparu mewn grwpiau ond mae darpariaeth ar gael ar gyfer ymyriadau un i un.  Maent yn cynnwys rhaglenni i fynd i’r afael â:

- troseddau penodol – er enghraifft troseddau rhywiol a cham-drin domestig
- patrymau cyffredinol ymddygiad troseddu
- troseddu sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Fe effeithiodd cyfyngiadau’r pandemig ar y gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig am yr un rhesymau a achosodd yr ôl-groniadau mewn gwaith di-dâl, yn bennaf bod gofynion cadw pellter cymdeithasol yn atal darparu gwaith grŵp wyneb yn wyneb ac eithrio mewn grwpiau llawer llai. Yn yr un modd â gwaith di-dâl, codwyd y cyfyngiadau hyn yn ddiweddarach o lawer na'r rhai mewn sectorau eraill. Dim ond ym mis Ebrill 2022 y cafodd ffurfiau darparu cyn y pandemig eu hailsefydlu’n llawn.

Roedd yn anos mynd i'r afael â'r ôl-groniad oherwydd swyddi gwag. Gellir gweld maint yr ôl-groniad drwy edrych ar ffigurau nodweddiadol ar gyfer un rhanbarth, lle mai dim ond 27 y cant oedd y gyfradd gwblhau ar gyfer rhaglenni achrededig troseddau rhywiol ac 17 y cant ar gyfer rhaglenni eraill yn y 12 mis cyn arolygiad. Yn y rhanbarth hwn, mewn 62 y cant o'r holl achosion lle'r oedd angen rhaglen achrededig, nid oedd yr ymyriad wedi dechrau ar adeg cyhoeddi ein harolygiad.

Unwaith eto, roedd ardaloedd wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o geisio mynd i’r afael â’r ôl-groniad hwn, gan gynnwys:

- ymgyrch cenedlaethol i gyflogi 300 aelod o staff rhaglenni erbyn haf 2022
- adolygu’r holl achosion lle’r oedd rhaglen achrededig yn annhebygol o gael ei chwblhau cyn i orchymyn ddod i ben ac yn hytrach cyfeirio unigolion at un o’r pum

ymyrraeth strwythuredig fyrrach y cytunwyd arnynt yn ddiweddar[5]. Pan oedd cydymffurfiaeth yn broblem neu pan oedd anghenion unigol penodol[6], cynigiwyd pecynnau offer fel dewis amgen, a fyddai'n cael ei ddarparu gan reolwr y troseddwr (Llundain)

- 'cymorthfeydd' wedi'u darparu gan staff ymyriadau i gynghori ymarferwyr ynghylch yr opsiynau sydd ar gael pan na ellir cyflawni'r gofynion (Dwyrain Lloegr)
- cyflwyno mentoriaid cyfoedion i gefnogi'r cyfraddau cydymffurfiaeth (Dwyrain Lloegr hefyd)
- mae'r rhaglen Sgiliau Meddwl ar fformat treigl yn awr er mwyn sicrhau bod y nifer fwyaf bosibl o bobl yn dechrau ar y rhaglen (Gogledd-ddwyrain Lloegr).

Er bod ystod dda o ymyriadau cam-drin domestig ar gael, yn ymarferol, ychydig iawn o dystiolaeth o ymyriadau strwythuredig wedi'u cyflawni a welsom.  Nid yw'r Gwasanaeth Prawf wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr i ddeall pa lefelau cyflenwi a ddisgwylir.  Ar y rhaglen Datblygu Perthnasoedd Gwell (BBR), mae goruchwyliaeth ar lefel genedlaethol yn llai eglur o gymharu â goruchwyliaeth ar lefel ranbarthol (lle mae rheolwyr rhaglen yn monitro'r lefelau cyflenwi). O ganlyniad, nid ydym wedi gallu sefydlu cyfran y bobl ar brawf sydd angen BBR sy'n cwblhau hyn.  Ar gyfer ein harolygiad thematig ar gam-drin domestig, fe wnaethom gasglu manylion pob un o'r 6,723 o ofynion BBR a wnaed rhwng 21 Mehefin 2021 a 30 Medi 2022.  Ar 09 Tachwedd 2022, roedd cyfanswm o 3,287 o'r dynion hyn wedi dechrau ar y rhaglen BBR. Roedd y rhestr aros a oedd yn weddill yn cynnwys 2,757 o ddynion, oherwydd roedd 679 wedi'u tynnu oddi ar y rhestr am resymau eraill.  O'r rhain, roedd 489 (18 y cant) ohonynt eisoes wedi bod yn aros am 52 wythnos a mwy i ddechrau ar y rhaglen. Erbyn 09 Tachwedd 2022, roedd cyfanswm o 594 o'r gofynion BBR a ddechreuwyd wedi'u terfynu, 187 (31 y cant) am eu bod wedi cwblhau'r gofyniad yn llwyddiannus a 407 am ystod o resymau eraill, gan gynnwys dirymu eu gorchymyn neu drwydded (245) neu weithredu gorchymyn dedfryd ohiriedig (95).

## Safbwyntiau Pobl ar brawf

Ychwanegiad newydd i'n methodoleg arolygu yw pwyslais cynyddol ar safbwyntiau pobl ar brawf.  Ers mis Mawrth 2022, rydym wedi comisiynu Llais y Defnyddiwr <https://www.uservoice.org/> i gasglu safbwyntiau pobl ar brawf ym mhob arolygiad lleol er mwyn hysbysu ein canfyddiadau a'n hargymhellion.  Gwna Llais y Defnyddiwr hyn drwy arolygon a chyfweliadau un i un.  Rhwng Mawrth 2022 ac Ionawr 2023, fe gasglodd safbwyntiau 1,353 o bobl ar brawf yn yr Unedau Cyflawni Prawf a arolygwyd gennym.  Yn ein crynodeb isod, rydym yn cynnwys dadansoddiad o safbwyntiau'r garfan hon o bobl ar brawf a dyfyniadau uniongyrchol o gyfweliadau.  Nid ydym yn priodoli dyfyniadau i unigolion, ond rydym yn nodi'r Uned Cyflawni Prawf lle'r oeddynt yn cael eu goruchwylio.

### Mynediad at wasanaethau prawf


Yn nhermau gweithrediad sylfaenol eu goruchwyliaeth, roedd y rhan fwyaf o'r bobl ar brawf yr ymgynghorwyd â hwy gan ddefnyddio Llais y Defnyddiwr yn cytuno eu bod wedi gallu cysylltu â'u swyddog prawf pan oedd angen, cael apwyntiad ar amser a oedd yn gyfleus

[5] Mae ymyriadau strwythuredig yn ymyriadau adsefydlu gyda model cyflawni cyson ar gyfer unigolion risg isel nad ydynt yn addas ar gyfer rhaglen achrededig.  Maent wedi'u halinio ag angen ac maent yn mynd i'r afael â materion tebyg i'r rhaglenni achrededig.

[6] Mae pecynnau offer yn ymarferion wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gyda chanllawiau ar gyfer yr ymarferwyr a thaflenni gwaith ar gyfer y cyfranogwyr.

iddyn nhw, eu bod wedi gallu siarad â'u swyddog prawf yn breifat ac wedi teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio'r swyddfa brawf. Canfu'r rhan fwyaf ohonynt hefyd bod lleoliad yr apwyntiadau goruchwylio, cyrsiau neu gymorth o fewn pellter teithio rhesymol. Mae Siart 9 yn dangos y data yn llawn.

Siart 9: Lefelau boddhad gyda mynediad sylfaenol i'r gwasanaeth prawf (n = 1353)




[Contact...] Cysylltu â swyddog prawf pan oedd angen [Appointment..] Apwyntiad ar amser cyfleus i fi [Private...] Sgwrs breifat pan oedd angen [Feel safe..] Teimlo'n ddiogel wrth fynd i'r swyddfa brawf [Reasonable..] Pellter teithio rhesymol
[Strongly agree] Cytuno'n gryf [ Agree] Cytuno [Undecided] Ansicr [Disagree] Anghytuno [Strongly..] Anghytuno'n gryf

*"Mae wir yn rhwydd i mi gysylltu â nhw ac maen nhw bob amser yn llwyddo i drefnu apwyntiadau sy'n gyfleus i fy amserlen, yn arbennig os wyf yn hwyr am resymau y tu hwnt i fy rheolaeth."*

Gogledd a Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln

*"Rwy'n gallu yn awr oherwydd mae fy Swyddog Prawf yn teilwra fy apwyntiadau i fy anghenion. Mae'n gwybod fy mod yn dioddef o orbryder felly nid yw'n rhoi apwyntiad i fi ar amser prysur, er enghraifft."*

Sheffield


> *"Mae'n cymryd mwy nac awr i gyrraedd yma ac mae'n costio mwy na £6.00 i fi.  Maent yn aml yn gwneud i mi aros am hir ar ôl amser fy apwyntiad, ond nid wyf i'n cael bod yn hwyr neu byddaf yn cael fy marcio'n absennol.  Un rheol iddyn nhw ac un arall i mi."*

Ealing a Hillingdon

### Mynediad at wasanaethau

Gofynnwyd hefyd i bobl ar brawf a oedd y gwasanaeth prawf yn eu helpu i gael mynediad at y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt, gyda chwestiynau ychwanegol ynghylch a oedd y gwasanaethau hynny'n berthnasol i'w hanghenion personol, yn lleol ac a oedd modd eu cyrchu o fewn amser rhesymol. Ar y mater pwysig hwn, roedd safbwyntiau'n parhau i fod yn gadarnhaol ond nid i'r un graddau. Dywedodd mwy na chwech o bob 10 o bobl (64 y cant) fod y Gwasanaeth Prawf wedi eu helpu i gael mynediad at y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Dywedodd dros hanner (56 y cant) y bobl ar brawf y gallent gael mynediad at wasanaethau o fewn amser rhesymol, gyda chyfrannau tebyg yn dweud bod y gwasanaethau'n berthnasol iddyn nhw'n bersonol (54 y cant) a'u bod yn eu hardal leol (56 y cant). Mae Siart 10 yn dangos y data yn llawn.

Siart 10: Lefelau boddhad gyda mynediad at wasanaethau (n = 1353)




[Probation..] Mae'r gwasanaeth Prawf wedi fy helpu i gael mynediad at y gwasanaethau roeddwn eu hangen [Access...] Mynediad at y gwasanaethau mewn cyfnod rhesymol [Access Services...] Mynediad at wasanaethau sy'n berthnasol i fy anghenion personol [Access these Services...] Mynediad at y gwasanaethau hyn yn fy ardal leol
[Strongly agree] Cytuno'n gryf [ Agree] Cytuno [Undecided] Ansicr [Disagree] Anghytuno [Strongly..] Anghytuno'n gryf

*"O llawer iawn. Rwyf wedi bod i'r SYAS a gwasanaeth llesiant arall. Roedd yr un lles yn wych; cefais ryw fath o hyfforddwr ffordd o fyw a chymorth i gael dyddiau allan fy hun, a oedd yn anhygoel oherwydd rwy'n ofalwr llawn amser ac nid wyf byth yn cael amser i mi fy hun."*

Gogledd-ddwyrain Birmingham a Solihull

*"A dweud y gwir, fe wnaethant. Fel rhan o fy nedfryd roedd yn rhaid i mi gael asesiad a thriniaeth iechyd meddwl ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma. Bu'n rhaid i mi aros yn hir iawn i ddechrau fy nghwrs Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a chafodd fy swyddog prawf 8 neu 10 sesiwn grŵp i mi a fu o gymorth gyda fy mhryder ac iselder."*

Gogledd Essex

*"Na. Mae angen cymorth arnaf gyda fy iechyd meddwl a thai ond nid ydyn nhw wedi gwneud unrhyw beth. Dim ond ei ysgrifennu ac nid yw unrhyw beth yn digwydd."*

Barking, Dagenham a Havering


### Barn ar oruchwyliaeth

Gofynnwyd i bobl ar brawf hefyd beth oedd yn dda, os o gwbl, am eu profiad o fod ar brawf. Dywedodd bron i dri o bob 10 o bobl (29 y cant) nad oedd unrhyw beth cadarnhaol ynglŷn â bod ar brawf. Fodd bynnag, cyfeiriodd mwy na phedwar o bob 10 (42 y cant) at eu perthynas gyda'u swyddog prawf a dywedodd tua un o bob chwech (16 y cant) bod eu hapwyntiadau wedi bod yn gadarnhaol.

I'r gwrthwyneb, gofynnwyd i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy beth oedd eu problem fwyaf ar brawf. Dywedodd ychydig dros draean ohonynt (34 y cant) na ellid bod wedi gwella unrhyw beth, ond y ddau faes cwynion mwyaf arwyddocaol oedd apwyntiadau (20 y cant) a'u perthynas â'u swyddog prawf (15 y cant).

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ynglŷn ag a oeddent yn hapus gyda'r gefnogaeth a gawsant gan y gwasanaeth prawf, cytunodd bron i ddwy ran o dair ohonynt (66 y cant)[7], gydag ychydig o dan chwarter (22 y cant) yn anghytuno[8]. Mae **Siart 11** yn dangos y data yn llawn.

Siart 11 – Lefelau boddhad cyffredinol gyda'r gwasanaeth prawf (n=1353)




[Overall...] Boddhad cyffredinol gyda'r gwasanaeth prawf

[Overall, I am happy..] Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda'r gefnogaeth a dderbyniais

[7] Mae'r ffigur hwn yn cyfuno'r rhai sy'n cytuno'n gryf ac a gytunodd â'r datganiad.
[8] Mae'r ffigur hwn yn cyfuno'r rhai sy'n anghytuno'n gryf ac a anghytunodd â'r datganiad.

[Strongly agree] Cytuno'n gryf [ Agree] Cytuno [Undecided] Ansicr [Disagree] Anghytuno [Strongly..] Anghytuno'n gryf

> *"Mae'r gwasanaeth prawf wedi bod yn gefnogol iawn ac rwy'n falch iawn o'u cael. Roeddwn yn bryderus iawn am fy nyfodol ac mae'r gwasanaeth prawf wedi fy helpu i beidio cynhyrfu a chanolbwyntio ar y dyfodol ac nid ar y gorffennol."*

Redcar, Cleveland a Middlesbrough

> *"Roeddwn wedi cyflawni trosedd trais domestig ac mae'r gwasanaeth prawf wedi fy helpu i ddeall fy ymddygiad."*

Hull a Dwyrain Riding

> *"Na, a yw'n swnio fy mod wedi cael unrhyw beth cadarnhaol? Byddai'n well i mi fynd yn ôl i'r carchar oherwydd o leiaf byddai gennyf do, bwyd, a fy sgript meth."*

Gogledd-ddwyrain Birmingham a Solihull

**Cyd-gynhyrchu**

Roedd llai na hanner y bobl yn cytuno[9] (46 y cant) eu bod wedi'u holi ynglŷn â chael eu goruchwylio. Roedd ychydig mwy na phedwar o bob 10 (40 y cant) yn anghytuno,[10] ac roedd yr 14 y cant a oedd yn weddill yn ansicr.

> *"Rwy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriadau defnyddwyr gwasanaethau Ymgysylltu â Phobl ar Brawf ar hyn o bryd. Rwyf wedi bod yn mynd ers mis Tachwedd ac mae gen i 2 gyfarfod arall. Rwyf wedi gallu trafod pethau yr hoffwn eu gweld yn newid ac mae hyn wedi'i dderbyn yn dda."*

Hull a Dwyrain Riding

> *"Ydy. Mae'r weithdrefn yn glir, mae fy swyddog prawf wedi dweud y gallwn ei drafod gyda hi unrhyw bryd, neu aelod arall o staff os oedd yn ymwneud â hi. Ond i fod yn onest, nid oes unrhyw beth wedi bod yn agos i sefyllfa fel yna."*

Redcar, Cleveland a Middlesbrough

> *"A! Mae cwyno ac yna aros i'r gŵyn gael ei throsglwyddo i uwch aelod o staff wneud rhywbeth am y peth yn jôc, nid yw byth yn digwydd. Rydych yn siarad â'r derbynnydd sy'n dweud y bydd yn trosglwyddo'r pryderon ymlaen, ond rwy'n gwybod nad yw'n mynd i unman."*

Lambeth

> *"Beth, fy mod yn cyfrannu mewn penderfyniadau y mae'r gwasanaeth prawf yn eu gwneud? Na, byth, pam fydden nhw'n malio beth wyf i'n ei ddweud, fi yw'r broblem yn eu llygaid nhw."*

Swydd Stafford a Stoke

[9] Mae'r ffigur hwn yn cyfuno'r rhai sy'n cytuno'n gryf ac a gytunodd â'r datganiad.
[10] Mae'r ffigur hwn yn cyfuno'r rhai sy'n anghytuno'n gryf ac a anghytunodd â'r datganiad.

# Pennod 4: Diogelu'r cyhoedd a'r risg o niwed

## Asesu, Diogelu a Newid

Mae prif ddiben y Gwasanaeth Prawf yn cael ei adlewyrchu yn ei arwyddair 'Asesu, Diogelu a Newid'. Mae'r tair elfen hyn yn rhyng-gysylltiedig, ac rydym yn cydnabod mai'r her i ymarferwyr prawf yw sefydlu perthynas gadarnhaol ac empathig gyda'r person maent yn eu goruchwylio, a'u bod yn barod i herio ymddygiad ac yn gallu gwneud hynny ac adnabod cydymffurfiaeth sy'n cael ei ffugio drwy arfer chwilfrydedd proffesiynol. Pan fydd staff yn llwyddo i wneud hyn, gallant gyflawni agwedd gytbwys sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn cefnogi unigolyn ar eu taith o ymddygiad troseddol i ymataliad.

Yn naturiol ddigon, swyddogaeth 'diogelu'r cyhoedd' y rôl brawf sy'n cael ei hystyried fel y rôl bwysicaf gan y llywodraeth ac aelodau'r cyhoedd. Y realiti trist yw mai bron yr unig adegau y mae'r Gwasanaeth Prawf yn y newyddion yw pan fydd diogelu'r cyhoedd yn methu a phobl dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf yn cyflawni troseddau pellach difrifol iawn. Eleni, fe wnaethom gynnal ymchwiliadau annibynnol pwrpasol i'r llofruddiaethau a gyflawnwyd gan Damien Bendall a Jordan McSweeney, a oedd ill dau o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ar adeg eu troseddau.

Fel y pwysleisiodd y Prif Arolygydd eisoes, y maes ymarfer hwn yw ein prif bryder. Mae'r bennod hon yn darparu dadansoddiad manwl o berfformiad presennol y Gwasanaeth Prawf yn diogelu'r cyhoedd.


## Risg o niwed difrifol

Yn y blynyddoedd diwethaf mae arolygwyr wedi amlygu methiant y Gwasanaeth Prawf i asesu'n gywir a rheoli'n gadarn y risgiau o niwed difrifol gan bobl ar brawf a hynny ar sail gyson. Hwn oedd y maes perfformiad mwyaf gwan cyn y pandemig, ac mae wedi gwaethygu ymhellach ers yr ail-uno. Rydym wedi rhoi sgôr annigonol am hyn i'r mwyafrif helaeth (67 y cant) o'r achosion unigol a arolygwyd gennym, ac mae'r darlun hyd yn oed yn waeth ar gyfer achosion risg canolig. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd mae mwy na dwy ran o dair (68 y cant) o'r llofruddiaethau sy'n cael eu cyflawni gan bobl ar brawf yn cael eu cyflawni gan bobl sy'n cael eu hystyried yn risg isel neu ganolig.

## Asesu risg

Yn ein harolygiadau o oruchwyliaeth achos, rydym yn holi ystod o gwestiynau ar y cam asesu i benderfynu a yw'r asesiad hwnnw'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae'r rhain yn cynnwys a wnaed ymholiadau cam-drin domestig ac amddiffyn plant ac a wnaeth yr asesiad nodi a dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill. Mae **Siart 12** yn dangos, lle y barnodd arolygwyr fod angen i'r ymarferydd prawf wneud yr ymholiadau hyn, bod ymholiadau amddiffyn plant wedi'u cynnal mewn 55 y cant o achosion, dim ond mewn 49 y cant o achosion y cynhaliwyd ymholiadau cam-drin domestig ac roedd risg o niwed dim ond yn cael sylw priodol mewn 39 y cant o achosion.

Siart 12: Asesiad – cadw pobl eraill yn ddiogel (n=1,509)





[Is classification..] A yw'r dosbarthiad o risg yn rhesymol?
[Analyse....] Dadansoddi risgiau penodol i ddioddefwyr?
[Assessment...] Asesiad o'r holl ffynonellau gwybodaeth?
[Clear...] Arwydd clir o adnabod a dadansoddi risgiau i eraill?
[Child safeguarding...] Ymholiadau amddiffyn plant wedi'u gwneud?
[Domestic...] Ymholiadau cam-drin domestig wedi'u gwneud?
[No] Na [Yes] Ie

Wrth gwrs, dim ond y cam cyntaf yw'r asesiad priodol o risg o niwed yn y broses a ddyluniwyd i amddiffyn y cyhoedd. Canfu ein harolygwyr, ar ôl methu â chynnal asesiad trylwyr yn y mwyafrif o achosion, roedd perfformiad gwael yr ymarferwyr wedi parhau drwy gamau eraill yr oruchwyliaeth. Roedd yr arolygwyr o'r farn nad oedd y cynlluniau goruchwylio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel yn y mwyafrif (58 y cant) o achosion. Fe wnaethom ganfod hefyd nad oedd ymarferwyr wedi gweithredu a chyflawni gwasanaethau a oedd yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol mewn bron i ddwy ran o dair (65 y cant) o achosion.

Fel y soniasom, roedd yr arolygwyr yn arbennig o bryderus ynghylch ansawdd gwael asesu a rheoli risg ar gyfer pobl ar brawf a ddynodwyd fel risg ganolig o niwed difrifol. Mae **Siart 13** isod yn dangos bod gwaith sy'n gysylltiedig â diogelu'r cyhoedd yn lleiaf tebygol o gael ei farnu'n effeithiol ar gyfer y grŵp hwn o bobl ym mhob un o'r tri cham goruchwylio achosion (asesu, goruchwylio a gweithredu/cyflawni). I'r rhai y dyfarnwyd eu bod yn risg ganolig, roedd arolygwyr o'r farn bod y gwaith a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd yn annigonol yn y mwyafrif helaeth o achosion ar bob un o'r tri cham. Nid oedd yr asesiadau i'r safon ofynnol mewn bron i dri chwarter yr achosion (74 y cant), roedd cynllunio yn annigonol mewn dwy ran o dair (66 y cant) ac roedd cyflawni'r oruchwyliaeth ei hun yn is na'r safon ofynnol mewn tri chwarter o achosion (71 y cant).

Siart 13: Diogelu'r cyhoedd – perfformiad wedi'i rannu yn ôl y risg o niwed difrifol (RoSH) – canran yr achosion a gyrhaeddodd safon ansawdd ddigonol ar gwestiynau sy'n gysylltiedig â risg (n = 1,509)




[Low RoSH] Ris Isel o Niwed Difrifol [Medium] Risg Canolig o Niwed Difrifol [High] Risg Uchel o Niwed Difrifol

[Assessment...] Yr Asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel
[Planning...] Y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel
[Delivery...] Y dull o gyflawni gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol

Mae'r prinder staff a drafodwyd ym mhennod 2 yn rhan o'r rheswm dros y perfformiad gwael hwn wrth asesu a rheoli risg. Mae llwyth achosion mawr yn golygu bod ymarferwyr prawf yn cael anhawster i ymrwymo amser digonol i bob achos; yn yr un modd, nid oes gan uwch swyddogion prawf sydd wedi'u llethu gan waith amser i adolygu pob achos yn llawn a darparu'r cymorth a'r oruchwyliaeth sydd eu hangen ar ymarferwyr.

Canfu'r arolygwyr, yn ogystal â pheidio cynnal yr ymholiadau gofynnol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (mewn cysylltiad â cham-drin domestig ac amddiffyn plant) mewn cymaint o achosion, roedd ymarferwyr, oherwydd diffyg amser o bosibl, yn canolbwyntio'n llwyr yn aml ar euogfarn ddiweddaraf yr unigolyn wrth asesu risg. O ganlyniad, roedd tystiolaeth o risg yn y gorffennol, megis trais yn erbyn partneriaid blaenorol neu dystiolaeth o ddefnyddio arfau neu aelodaeth gangiau yn cael ei methu.

Er gwaethaf y strwythurau newydd yn cael eu gwreiddio a rhywfaint o gynnydd i lefelau staffio, mae'n destun pryder nad ydym wedi gweld unrhyw welliannau mewn perfformiad amddiffyn y cyhoedd yn ein harolygiadau o Unedau Cyflawni Prawf yn y 18 mis diwethaf.

## Troseddau Difrifol Pellach

Y rheswm pam ein bod yn canolbwyntio cymaint ar y risg o niwed difrifol yw y gall ymarfer gwael arwain at ganlyniadau trychinebus. Ym mhob achos pan fydd person ar brawf yn cyflawni trosedd dreisgar neu rywiol ddifrifol (ac adroddir am tua 500 o achosion o'r fath bob blwyddyn), mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf gynnal adolygiad ffurfiol i ymchwilio i

ansawdd yr oruchwyliaeth brawf hyd at y drosedd ddifrifol. Mae'n rhaid i'r adolygiad nodi hefyd unrhyw beth y gellid ei ddysgu er mwyn lleihau'r posibilrwydd o drosedd debyg eto. Ers 2021, rydym wedi arolygu ansawdd 20 y cant o'r adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Prawf. Ym mis Mehefin eleni, fe wnaethom gyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar y broses archwilio hon, lle'r ydym yn adrodd ar ansawdd y 86 adolygiad troseddau difrifol pellach i sicrhau eu hansawdd rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2023.

O gymharu â chanfyddiadau'r llynedd (Ebrill 2021 – Ebrill 2022), rydym wedi gweld dirywiad yn ansawdd cyffredinol yr adolygiadau hyn. Mae'r gyfran o adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach a dderbyniodd sgôr 'Angen Gwella' neu 'Annigonol' wedi cynyddu o 31 y cant i 47 y cant, ac mae'r gyfran a dderbyniodd sgôr cyfansawdd 'Da' neu 'Rhagorol' wedi gostwng o 69 y cant yn 2021-2022 i 52 y cant eleni.

Mae'n hollbwysig bod yr adolygiadau hyn o'r safon uchaf er mwyn gallu dysgu ohonynt a lleihau'r nifer o droseddau difrifol pellach sy'n cael eu cyflawni gan bobl o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Canfu'r arolygwyr o'r adborth sicrhau ansawdd, ei bod yn amlwg nad oedd cydlofnodi mewnol trylwyr yn cael ei gyflawni i safon ddigonol yn y rhanbarth prawf cyn i'r adolygiad o droseddau difrifol pellach gael ei gyflawni ar gyfer sicrhau ansawdd.

Roedd gennym bryderon hefyd ynglŷn â gradd ac annibyniaeth y rhai sy'n gwneud y gwaith hwn. Dywedodd uwch swyddogion prawf a oedd yn gyfrifol am gynnal yr adolygiadau hyn y byddent weithiau yn hoffi archwilio materion rheoli a pholisi ar lefel uwch, ond nad oeddent yn teimlo wedi'u grymuso i wneud hynny. Mynegwyd pryder ganddynt y gallai eu gallu eu hunain i graffu ar ymarfer eu huwch arweinwyr eu hunain, a'i feirniadu o bosibl, gael ei gyfyngu gan eu rôl, gradd a'u cysylltiadau â'r rhanbarth dan sylw. Fe wnaethom argymell mwy o annibyniaeth yn y broses adolygu troseddau difrifol pellach a gallai adolygwr ar radd uwch ddarparu her fwy a mwy cadarn.

Yr hyn sy'n peri pryder pellach yw'r gyfran o adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach a dderbyniodd sgôr 'Da' neu 'Ragorol' ar gyfer ein safon ar gyfer dioddefwyr. Dylai'r adolygiadau hyn fod yn ddogfen hygyrch ac addysgiadol ar gyfer dioddefwr y drosedd ddifrifol bellach neu eu teulu. Fodd bynnag, eleni, mae'r gyfran o adolygiadau sydd wedi derbyn sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' ar gyfer y safon hon wedi gostwng yn sylweddol o 80 y cant i 74 y cant. Gwelwyd cynnydd sylweddol i'r gyfran a dderbyniodd sgôr 'Angen gwella' neu 'Annibynnol' o 20 y cant i 52 y cant.

## Dysgu o'r adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach diweddar

Yn gyffredinol, o'n gwaith sicrhau ansawdd yr adolygiadau troseddau difrifol pellach, nododd ein harolygwyr y gwersi allweddol canlynol ar gyfer staff rheng flaen:

- mae ymarferwyr yn tanamcangyfrif natur a lefel y risg o niwed difrifol a gyflwynir – mewn 52 y cant o'r achosion a adolygwyd gennym, roedd yr ymarferydd wedi asesu'r risg wreiddiol o niwed difrifol fel isel neu ganolig yn unig
- nid yw camau gorfodi bob amser yn cael eu defnyddio'n gyson neu'n unol â chanllawiau polisi, yn arbennig gydag achosion trwydded
- nid yw amrywiaeth bob amser yn cael ei ystyried yn llawn os nad oes cysylltiad digonol rhwng staff carchardai a phrawf
- mae diffyg chwilfrydedd proffesiynol weithiau, ac nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i reoli'r risgiau a gyflwynir gan bobl ar brawf yn y gymuned

- nid oedd ymarferwyr yn aml yn defnyddio’r ystod o becynnau offer cymeradwy sydd ar gael iddyn nhw weithio drwyddynt gyda’r rhai sy’n destun goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf
- mae methiant cyson (hefyd yn amlwg yn ein harolygiadau lleol) i gynnal ymholiadau digonol gyda'r heddlu a chynghorau lleol am gam-drin domestig neu risgiau diogelu plant ac oedolion
- mae llwyth gwaith a goruchwyliaeth wael gan reolwyr yn cael effaith amlwg ar ansawdd y gwaith i ddiogelu’r cyhoedd.

Yn ogystal â’r archwiliad ansawdd hwn o 86 adolygiad o droseddau difrifol pellach a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Prawf, cawsom ein comisiynu hefyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i gynnal ein hadolygiadau troseddau difrifol pellach ein hunain i oruchwyliaeth Damien Bendall a Jordan McSweeney. Cyhoeddwyd y rhain ym mis Ionawr 2023.

## Troseddau Pellach Difrifol Damien Bendall

Cyflawnodd Mr Bendall bedair llofruddiaeth tra'r oedd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Llofruddiodd Terri Harris (35 oed), John Paul Bennett (13 oed), Lacey Bennett (11 oed) a Connie Gent (11 oed). Treisiodd Lacey hefyd. Cyflawnwyd y troseddau hyn ym mis Medi 2021 yn Killamarsh, Swydd Derby. Llediodd yn euog ym mis Rhagfyr 2022 a derbyniodd ddedfryd o garchar am oes yn ddiweddarach.

Canfu arolygwyr bod dulliau asesu a rheoli'r Gwasanaeth Prawf ar gyfer Bendall ar bob cam o'r broses, o'r adroddiad llys cychwynnol i'w oruchwyliaeth yn y gymuned, o safon annerbyniol ac yn llawer is na'r safon ddisgwyliedig.  Pwysleisiwyd gwallau difrifol ar bob pwynt yn y broses.

Ni chynhwyswyd gwybodaeth hollbwysig am y risgiau difrifol yr oedd Mr Bendall yn eu cyflwyno i'r rhai oedd yn byw gyda hwy, yn adroddiad y Gwasanaeth Prawf a'u hargymhellion i'r barnwr pan gafodd ei ddedfrydu am drosedd llosgi bwriadol ym Mehefin 2021.  Roedd yr ymarferydd prawf a baratôdd yr adroddiad llys yn dilyn euogfarn Mr Bendall am losgi bwriadol wedi ystyried ei fersiwn ef o'r digwyddiadau mewn cysylltiad â'i droseddu a derbyn yr amgylchiadau ar yr olwg gyntaf.  Ni ddarllenodd awdur yr adroddiad llys y wybodaeth berthnasol am ei ymddygiad yn y gorffennol, gan gynnwys gwybodaeth gan y gwasanaeth prawf a'r heddlu.  Felly, daethant i'r casgliad anghywir bod Mr Bendall yn cyflwyno risg ganolig o niwed difrifol i'r cyhoedd, a risg isel o niwed i bartneriaid ac i blant, pan ddylai'r risg yn y ddau fater fod wedi derbyn sgôr 'uchel'.

Arweiniodd y camgymeriad cychwynnol hwn at roi gorchymyn cyrffyw cwbl amhriodol gan y llys, a oedd yn mynnu ei fod yn byw gyda Terri Harris, a bod swyddog amhrofiadol y gwasanaeth prawf yn gyfrifol am ei oruchwylio, yn hytrach na swyddog prawf cymwys a fyddai wedi cael profiad a hyfforddiant priodol ac a fyddai'n gallu ei reoli'n well ar y lefel risg uwch o niwed difrifol yr oedd ei hanes blaenorol yn ei chyfiawnhau.

Canfu'r arolygwyr fod ymarferwyr prawf olynol a'u rheolwyr llinell wedi colli cyfleoedd i sicrhau bod gwybodaeth hanfodol a oedd yn hysbys am Damien Bendall yn cael ei chynnwys mewn asesiadau a chynlluniau i reoli a mynd i'r afael â'r risg o niwed difrifol yr oedd yn ei achosi i fenywod a phlant. Ni chynhaliodd ymarferwyr ymholiadau diogelu pan gafodd ei ddedfrydu am ei drosedd ddiweddaraf o losgi bwriadol, ac ni ymgynghorwyd â Terri Harris ynghylch cyflwr y cyrffyw ychwaith.

## Troseddau Pellach Difrifol Jordan McSweeney

Roedd Jordan McSweeney hefyd o dan oruchwyliaeth brawf naw diwrnod ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar, pan ddilynodd Zara Aleena wrth iddi gerdded adref yn Ilford, Dwyrain Llundain, ym mis Mehefin 2022.  Dioddefodd ymosodiad corfforol a rhywiol parhaus cyn iddo ei llofruddio. Cafodd ei ddedfrydu i garchar am oes gyda lleiafswm o 38 mlynedd i'w treulio yn y carchar.

Fel Bendall, aseswyd yn anghywir bod McSweeney yn cyflwyno risg ganolig o niwed difrifol. Roedd yr arolygwyr o'r farn y dylid bod wedi uwchraddio ei lefel risg i 'uchel', yn seiliedig ar yr ystod o wybodaeth a oedd ar gael am ei hanes o drais yn y gorffennol, yn ogystal â throseddau meddiangar.  Ni chafodd gwybodaeth hysbys am y risgiau a gyflwynodd yn y ddalfa, gan gynnwys bod ag arfau yn ei feddiant ac ymddygiad treisgar a bygythiol, ei chyfleu i'r swyddog prawf goruchwyliol yn y gymuned.  Roedd y swyddog wedi gwneud cais am gofnodion y ddalfa, ond ni ddarparwyd y rhain.  Beirniadodd yr arolygwyr y broses dyrannu achosion fel un 'ddryslyd a beichus'.  Yn achos Mr McSweeney, er iddo gael ei ddedfrydu i 16 mis yn y carchar, dim ond dau fis a oedd ganddo yn weddill o'i ddedfryd cyn iddo gael ei ddedfrydu (ar ôl treulio cyfnod hir ar remand).  Roedd oedi cyn dyrannu ei

achos i swyddog prawf yn y gymuned, a oedd ond wedi digwydd naw diwrnod cyn iddo gael ei ryddhau, wedi'i gwneud yn anodd i'w swyddog prawf goruchwyliol gynnal asesiad risg trylwyr.

Pe byddai wedi'i asesu fel unigolyn risg uchel, gallai McSweeney fod wedi'i ryddhau i hostel prawf, gydag amodau cyrffyw a chyfyngiadau ar ei yfed, a byddai wedi bod yn destun proses rheoli MAPPA ar y cyd gyda'r heddlu. Byddai'r mesurau hyn wedi golygu mwy o oruchwyliaeth a gwybodaeth am risgiau McSweeney a'i symudiadau. Mae'n debygol hefyd y byddai wedi cael ei alw'n ôl yn fwy prydlon ar ôl colli ei apwyntiadau prawf cyntaf ar ôl iddo gael ei ryddhau, gan wneud y mwyaf o'r amser y byddai'r heddlu wedi'i gael i'w arestio a'i ddychwelyd i'r ddalfa.

**Yr hyn a ddysgwyd**

Yn y naill adolygiad a'r llall, canfu arolygwyr fethiannau clir yn ansawdd yr ymarfer prawf unigol, ond canfuwyd nifer o broblemau systemig hefyd. Yn ogystal â phryderon ynghylch ymarferwyr a rheolwyr llinell wedi'u gorweithio, canfu'r arolygwyr bwyntiau dysgu allweddol eraill, ac yn eu plith:

- dulliau gwael o asesu a rheoli'r risg o niwed, yn benodol pryderon ynglŷn â methiant i ymchwilio i'r risg y tu hwnt i'r drosedd bresennol
- proses feichus o ddyrannu achosion a methiant i gynnal unrhyw waith cynllunio priodol i ailsefydlu yn achos Mr McSweeney (mater allweddol yr ydym yn ei drafod yn helaeth yn ein pennod ar ymarfer ailsefydlu)
- proses wael o rannu gwybodaeth rhwng y gwasanaethau carchar a phrawf
- dim proses ffurfiol i gysylltu ag oedolion a oedd yn byw mewn cyfeiriad cyrffyw arfaethedig i sicrhau eu cydsyniad i ofyniad preswylio gyda hwy
- yr angen i hyfforddeion a swyddogion prawf sydd newydd gymhwyso gael mentor profiadol.

Yn ogystal â chyhoeddi'r hyn a ddysgwyd o'n hadolygiadau sicrhau ansawdd Troseddau Difrifol Pellach, rydym hefyd wedi cyhoeddi dau ganllaw ymarfer effeithiol ar sut i wella 'chwilfrydedd proffesiynol'. Mae'r cyntaf yn adnodd i helpu ymarferwyr prawf <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2022/10/v1.0-Professional-curiosity-practitioner-.pdf> i ddatblygu eu sgiliau yn y maes hwn a gallu mynd y tu hwnt i'r asesiad risg syml sy'n seiliedig ar asesiadau blaenorol a'r hyn y mae pobl ar brawf yn ei ddweud wrthynt. Mae'r ail ganllaw wedi'i gynllunio ar gyfer rheolwyr canol <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2022/10/v1.0-Professional-curiosity-manager.pdf> i'w helpu i ystyried sut y gallant greu diwylliant sy'n galluogi ac yn hybu chwilfrydedd proffesiynol.

Mae ein diffiniad o chwilfrydedd proffesiynol yn cwmpasu pob agwedd o waith ymarfer prawf, gan gynnwys ansawdd asesiadau, cynllunio, gweithredu a darparu ac adolygiadau. Mae hefyd yn ymwneud â sut mae pobl yn parhau i fod yn chwilfrydig am eu hymarfer a dilyn datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae chwilfrydedd proffesiynol yn gyfuniad o edrych, gwrando, holi cwestiynau uniongyrchol ac egluro a myfyrio ar wybodaeth a dderbyniwyd i ddadansoddi beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun yr unigolyn hwnnw. Credwn ei bod yn hollbwysig nad yw ymarferwyr prawf yn defnyddio un ffynhonnell unigol o wybodaeth ond yn hytrach eu bod yn ymchwilio i ffynonellau lluosog. Bydd hyn yn eu galluogi i driongoli gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, dadansoddi ymddygiad a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Credwn fod y sgiliau hyn, o'u gweithredu mewn ffordd empathig, yn galluogi'r ymarferydd a'r rheolwr i ddeall mwy am yr unigolyn, gan gynnwys eu hunaniaeth, eu cymhellion, eu gallu, adnoddau, cryfderau a risgiau.

Bydd gwell dealltwriaeth o hunaniaeth yr unigolyn, a beth sy'n eu cymell, yn atgyfnerthu'r ymgysylltiad (gan gofio nad yw pobl ar brawf yn aml yn dewis mynychu) a sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu'r strategaethau mwyaf effeithiol i reoli risgiau a/neu newid ymddygiad, a fydd yn hybu ymataliad.

Rydym hefyd wedi archwilio'r themâu o risg a niwed difrifol a diogelu'r cyhoedd ar draws tri arolygiad eleni. Yn adran nesaf y bennod hon rydym yn rhannu'r canfyddiadau o'r arolygiadau mewn manylder.

## Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) thematig

Cynhaliwyd ein hadroddiad arolygu ar y cyd ar Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) gyda'n cydweithwyr o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFRS), ac Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) i ddynodi 20 mlynedd o MAPPA. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2022.

MAPPA yw'r broses y mae asiantaethau amrywiol yn ei defnyddio gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf yn cydweithio – drwy gydweithrediad a rhannu gwybodaeth – i amddiffyn y cyhoedd drwy reoli'r risgiau a gyflwynir gan droseddwyr treisgar a rhywiol sy'n byw yn y gymuned. Gall achosion MAPPA hefyd gynnwys pobl sydd yn y carchar, sy'n paratoi i gael eu rhyddhau neu sydd mewn cyfleusterau iechyd meddwl. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 89,438 o droseddwyr o dan reolaeth MAPPA yn y gymuned yng Nghymru a Lloegr, o gymharu â 79,790 o bobl a oedd yn y carchar yn agos at yr un dyddiad (1af Ebrill 2022).

### Lefelau a chategorïau MAPPA

Bydd unigolion yn gymwys ar gyfer rheolaeth MAPPA os byddant wedi'u cynnwys mewn un o dri chategori. Mae cymhwyster ar gyfer categorïau 1 a 2 yn awtomatig oherwydd y ddedfryd y mae unigolyn wedi'i derbyn.

**Categori 1**

Troseddwyr rhyw cofrestredig


**Categori 2**

Troseddwyr treisgar a gafwyd yn euog o drosedd dreisgar benodedig ac a ddedfrydwyd i o leiaf 12 mis yn y ddalfa neu eu cadw o dan orchymyn ysbyty; neu droseddwyr rhywiol anghofrestredig

**Categori 3**

Troseddwyr peryglus eraill sydd angen rheolaeth aml-asiantaeth

Ar ôl nodi bod troseddwr yn gymwys ar gyfer MAAP, pennir lefel o reolaeth. Mae achosion Categori 3 ond yn bodoli ar Lefelau 2 a 3.




Roedd ein hadroddiad yn olrhain newidiadau sylweddol yn MAPPA, yn enwedig y ffaith, er bod llwyth achosion cyffredinol MAPPA wedi cynyddu 70 y cant ers 2011, mae’r gyfran sy’n cael ei rheoli drwy fforymau aml-asiantaeth ffurfiol wedi haneru ac yn llai na dau y cant o’r cyfanswm.

Mae’r mwyafrif o’r achosion MAPPA (98.4 y cant) yn cael eu rheoli ar lefel 1. Ar ôl cael eu canfod yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar ddifrifol, dylai achosion lefel 1 fod yn destun adolygiadau rheolaidd, a dylid rhannu’r wybodaeth a gesglir rhwng yr holl asiantaethau sy’n gweithio gyda’r person hwnnw.

Canfu ein harolygwyr y dylai dros un rhan o bump o’r achosion lefel 1 a archwiliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn fod wedi’u rheoli drwy drefniadau panel aml-asiantaeth ffurfiol ar lefel 2, a oedd yn destun pryder. Canfuwyd hefyd, i lawer gormod o’r llwyth achosion lefel 1, mai ychydig iawn o ystyr a oedd gan y statws hwn, a’i fod ond yn gwella’r dulliau o reoli risg o niwed mewn dim ond o dan draean (32 y cant) o’r achosion a arolygwyd gennym. Mewn dim ond mewn ychydig dros hanner (53 y cant) o achosion yn y gymuned yr oedd lefel a natur y cyswllt â'r unigolyn yn ddigonol i gefnogi'r cynllun rheoli achos.

Hefyd, canfuom fod y defnydd o MAPPA yn amrywio’n sylweddol yn ôl ardal. Roedd rhai ardaloedd yn dehongli’r meini prawf MAPPA yn wahanol ac nid oeddent yn atgyfeirio digon o achosion ar gyfer rheolaeth aml-asiantaeth ffurfiol. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn datgan nad oedd defnydd digonol yn cael ei wneud o MAPPA: ar gyfer achosion sy’n cael eu rheoli ar y lefel 1 is, nid oedd y cyswllt yn ddigonol, mae’r gwaith adolygu yn annigonol yn rhy aml ac mae’r cyfathrebu rhwng carchardai a’r staff prawf cymunedol yn gyfyngedig ac yn digwydd yn rhy hwyr.

I'r gwrthwyneb, roedd ein harolygwyr o’r farn, ar gyfer yr achosion hynny sy’n cael eu rheoli ar lefelau 2 a 3 (sy’n cynnwys cyfarfodydd aml-asiantaeth ffurfiol), bod MAPPA ar y cyfan yn cyflawni ei nodau o reoli risgiau troseddwyr treisgar a rhywiol i’r cyhoedd.

Yn gyffredinol, roedd arolygwyr o’r tair asiantaeth yn cytuno bod gweithredu MAPPA yn cyflwyno darlun cymysg o lawer o enghreifftiau cadarnhaol o waith aml-asiantaeth, yn arbennig gyda’r rhai sy’n cael eu rheoli ar y lefelau uwch ond nad oedd gormod o bobl a oedd yn cael eu rheoli ar lefel 1 yn derbyn y sylw oedd ei angen i ddiogelu’r cyhoedd.

## Arolygiad thematig cam-drin domestig

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein harolygiad thematig <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/domestic-abuse-2023/> i’r gwaith a gynhaliwyd a’r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Prawf i leihau’r achosion o gam-drin domestig ac amddiffyn dioddefwyr. Mae effaith cam-drin domestig yn sylweddol ac yn bellgyrhaeddol. Amcangyfrifir bod 2.4 miliwn o oedolion wedi bod yn ddioddefwyr

cam-drin domestig ar draws Cymru a Lloegr y llynedd, ac mae un o bob saith o blant yn byw gyda cham-drin domestig ar ryw bwynt yn eu plentyndod. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am y gamdriniaeth hon yn cynrychioli rhan arwyddocaol iawn o lwyth achosion y Gwasanaeth Prawf. Ar 30 Medi 2022, roedd 74,996 o'r 240,674 (31.2 y cant) o bobl a oedd yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf wedi'u nodi fel cyflawnwyr presennol neu flaenorol cam-drin domestig ar systemau rheoli achosion prawf.

Y tro diwethaf inni archwilio'r pwnc hwn (yn 2018), adroddwyd bod gormod o unigolion yn llithro drwy eu dedfrydau heb gael eu herio neu eu cefnogi i newid eu hymddygiad camdriniol. Er gwaethaf rhai datblygiadau polisi cadarnhaol, mae'n destun pryder mawr bod ein harolygiad newydd yn dod i'r casgliad nad oes llawer wedi gwella yn ymarferol ac, mewn rhai agweddau, mae'r sefyllfa wedi dirywio. Dim ond 28 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym ar gyfer yr adroddiad thematig hwn oedd wedi cael asesiad digonol a oedd yn dadansoddi'r risgiau o gam-drin domestig pellach, a dim ond 23 y cant oedd wedi'u hadolygu'n ddigonol i ystyried newidiadau sylweddol yn yr achos. Fe wnaethom ddatgan yn glir bod y lefel hon o berfformiad yn annerbyniol ac yn gadael llawer gormod o ddioddefwyr posibl mewn perygl.

Gellir cynnig ystod eang o ymyriadau i bobl ar brawf, i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau a'u cymhwyso i gael perthnasoedd diogel ac iach. Fodd bynnag, ychydig iawn o bobl sy'n cael mynediad at yr ymyriadau hyn; dylai 45 y cant o'n sampl o achosion fod wedi cael mynediad at ymyrraeth ond nad oeddent wedi cael mynediad. Yn ogystal, canfuom waith monitro annigonol ar gyfer cyfraddau atgyfeirio, derbyn a chwblhau ar gyfer ymyriadau ar lefel genedlaethol, er mwyn deall y darlun cyffredinol. Roeddem yn arbennig o bryderus nad yw gofynion i ymgymryd â rhaglen cyflawnwyr cam-drin domestig a wnaed wrth ddedfrydu yn cael eu cyflawni mewn llawer o achosion.

Mae prinder staff yn y Gwasanaeth Prawf wedi arwain at ostyngiad mewn disgwyliadau ynglŷn â'r lefelau cyswllt gofynnol gyda phobl ar brawf, gweithio mewn partneriaeth a darparu ymyriadau. Mewn achosion cam-drin domestig mae hyn wedi arwain at ddiffygion pryderus yn safon rheoli dedfrydau. Mae staff prawf yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i'w gwaith, yn aml yn gweithio ymhell dros eu horiau disgwyliedig, ond mae llwythi achosion uchel yn aml yn eu hatal rhag cwblhau gwaith ystyrlon. Yn ogystal, nid yw newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth drwy Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, megis cydnabod plant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, wedi'u hymgorffori mewn arferion prawf.

Canfuom hefyd nad yw staff prawf yn cael eu paratoi'n briodol i weithio gyda'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Mae pobl sy'n cam-drin y rhai sy'n agos atynt yn aml wedi profi trawma sylweddol eu hunain ac wedi datblygu strategaethau ymdopi gwael sy'n arwain at ymddygiad camdriniol. Nid yw ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir i ymarferwyr prawf yn eu cefnogi ar hyn o bryd i weithio'n effeithiol ar y lefel hon o gymhlethdod, ac nid oes digon o hyfforddiant cyswllt na thraws-asiantaeth i staff prawf ddysgu gan sefydliadau sy'n arbenigwyr yn y maes hwn.

Mae angen brys i wella'r ddealltwriaeth a rennir o rolau a chyfrifoldebau ymhlith yr asiantaethau sy'n gweithio ym maes cam-drin domestig, ac i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu i amddiffyn dioddefwyr.

Gwnaethom nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai HMPPS gyhoeddi strategaeth cam-drin domestig ar gyfer y Gwasanaeth Prawf ac adolygu cynnydd yn ei erbyn yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys monitro'r dull o gyflenwi'r holl ymyriadau cam-drin domestig er mwyn nodi a mynd i'r afael ag anghenion heb eu cyflawni. Rydym hefyd yn argymell y Gwasanaeth Prawf i ddatblygu digwyddiadau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth aml-asiantaeth lleol gydag asiantaethau partner er mwyn cefnogi ymarferwyr a rheolwyr i

ddatblygu eu dealltwriaeth o natur gymhleth cam-drin domestig, rolau asiantaethau eraill a all gynnig cymorth a threfniadau rhannu gwybodaeth.

## Arolygiad thematig Troseddwyr y Ddeddf Terfysgaeth

Roedd ein trydydd arolygiad thematig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn arolygiad ar y cyd gyda'n cydweithwyr yn yr arolygiaeth carchardai a'r heddlu, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, o'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a monitro'r risg o derfysgaeth a throseddwyr terfysgaeth.  Yn yr arolygiad hwn fe wnaethom ganfod darlun llawer mwy cadarnhaol o gynnydd.

Mae tri sefydliad allweddol yn gyfrifol am reoli achosion terfysgaeth a risg uchel o derfysgaeth: yr Isadran Diogelwch Gwladol (NSD), rhan o'r Gwasanaeth Prawf; Rheolaeth Enwol Gwrthderfysgaeth (CTNM), rhan o'r Heddlu Gwrth-derfysgaeth; a Gwasanaeth Carchardai EF (HMPS).

Rhyddhawyd cyfanswm o 27 carcharor a oedd yn cael eu cadw am droseddau terfysgaeth neu a oedd yn gysylltiedig â therfysgaeth o'r ddalfa ym Mhrydain Fawr yn y flwyddyn yn dod i ben ar 30 Medi 2022, a chawsant eu goruchwylio gan staff yn y NSD.  Cyfanswm llwyth achosion y NSD ym Mawrth 2023 oedd 344.

Canfu'r arolygwyr bod gan y NSD niferoedd digonol o swyddogion prawf a oedd yn meddu ar lefelau da o sgiliau a gwybodaeth, a oedd yn darparu gwasanaeth o ansawdd da. Aseswyd bod goruchwyliaeth yn y gymuned yn gadarn ar y cyfan, gan gydbwyso anghenion adsefydlu gyda ffiniau rheoli risg tynn.  Disgrifiwyd y broses o drosglwyddo o reolwyr troseddwyr yn y carchar i'w cyfoedion yn y gymuned fel un amserol, gyda lefel dda o ymgysylltiad gan reolwyr rheoli troseddwyr cymunedol cyn eu rhyddhau.

Mae gwaith gwrthderfysgaeth yn ddwys, a arweiniodd arolygwyr i gwestiynu am ba mor hir y gallai ymarferwyr a rheolwyr barhau i ddangos y 'safon aur' o arfer a ddisgwylir wrth i niferoedd achosion barhau i godi gyda llawer o bobl yn parhau dan oruchwyliaeth am nifer o flynyddoedd ac achosion newydd yn cael eu rhyddhau o'r carchar yn rheolaidd.

Roedd yr arolygwyr hefyd o'r farn, er bod y model presennol i gadw pob achos o gael terfysgwyr yn euog fel MAPPA lefel 3 am 12 mis i ddechrau, yn ddealladwy fel ymateb cychwynnol i'r ymosodiadau terfysgol, nid oedd bellach yn ddefnydd effeithiol o adnoddau. Yn benodol, nid yw'n ddefnydd effeithlon o uwch reolwyr y NSD a CTNM sy'n gorfod cadeirio paneli lefel 3.  Roedden nhw'n argymell, pan fydd yr holl waith rheoli risg mewn un lle a bod yr unigolyn wedi cyflawni cyfnod o sefydlogrwydd, y gellid rheoli achosion yn rhesymol ar lefel 2, o ystyried gwybodaeth ac arbenigedd y paneli aml-asiantaeth hyn.  Gallai achosion unigol, wrth gwrs, gael eu dychwelyd i lefel 3 ar unrhyw adeg pe byddai angen.

## Dioddefwyr

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gyfrifol am ddiweddaru dioddefwyr troseddau difrifol ynglŷn â dedfrydu, cynnydd drwy'r system carchardai, parôl ac (yn hollbwysig) rhyddhau'r unigolyn sydd wedi cyflawni trosedd yn eu herbyn.

Mae'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS) yn berthnasol i ddioddefwyr (neu berthnasau galarus) pan gafodd y troseddwr eu canfod yn euog o drosedd dreisgar neu rywiol a'u dedfrydu i 12 mis neu fwy mewn carchar (neu eu cadw mewn ysbyty i dderbyn triniaeth o dan *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* gyda neu heb orchymyn cyfyngu). Mae data HMPPS yn dangos bod llwyth achosion cyffredinol y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr yn cynnwys tua 60 y cant o achosion treisgar a 40 y cant o droseddau rhywiol.

Mae gan ddioddefwyr yr hawl i gael eu hatgyfeirio'n awtomatig o fewn 10 diwrnod gwaith i ddedfrydu i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr a chael swyddog cyswllt dioddefwyr (VLO).  O fis

Ebrill 2021, mae wedi bod yn ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf gysylltu â'r dioddefwr o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn atgyfeiriad gan yr Uned Gofal i Dystion (a weithredir gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron). Mae hyn yn golygu y gellir cael mynediad i'r gwasanaeth yn gyflymach na'r gofyniad 40 diwrnod blaenorol.

Cynigir y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr i bob dioddefwr cymwys; fodd bynnag, dewis llwyr y dioddefwr yw derbyn y cynnig o Gynllun Cyswllt Dioddefwyr a derbyn diweddariadau ar gynnydd y troseddwr yn eu hachos drwy'r system carchardai. Mae yna nifer o gynlluniau peilot yn cael eu cynnal ar draws y Gwasanaeth Prawf yn awr, sy'n edrych ar ehangu'r cynllun i gynnwys achosion fel stelcio ac aflonyddu lle gorfodwyd dedfryd o garchar o lai na 12 mis.

Ar 16 Ionawr 2023, roedd 43,074 o ddioddefwyr gweithredol yn y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr. Roedd hyn yn amrywio o 2,454 o bobl yn rhanbarth prawf Canol De Lloegr i 4,957 yn Llundain.

Bu ein harolygwyr yn asesu ansawdd y gwaith cyswllt dioddefwyr mewn cyfanswm o 116 o achosion ar draws ein harolygiadau lleol, gan eu harchwilio yn erbyn tri phrif gwestiwn:

1. A yw'r cyswllt cychwynnol gyda dioddefwyr yn annog ymgysylltiad gyda'r cynllun cyswllt dioddefwyr ac a yw'n darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth?
2. A oes proses effeithiol o gyfnewid gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi diogelwch dioddefwyr?
3. A yw'r cyswllt cyn rhyddhau gyda'r dioddefwyr yn eu galluogi i wneud cyfraniadau priodol i'r amodau rhyddhau?

Ar y cyfan, asesodd arolygwyr fod ansawdd gwaith Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn effeithiol. Barnwyd bod cyswllt cychwynnol yn effeithiol mewn 88 y cant o achosion, roedd cyfnewid gwybodaeth yn foddhaol mewn 86 y cant o achosion ac roedd cyswllt cyn rhyddhau yn bodloni'r safon ofynnol mewn 93 y cant o achosion.

Fodd bynnag, roedd yna nifer o feysydd sy'n peri pryder:

- nid oedd dioddefwyr yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r camau y gallent eu cymryd pe byddai'r carcharor yn gwneud cyswllt digroeso gyda hwy mewn 41 o achosion
- ni chafodd dioddefwyr eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr eraill na rhoi gwybodaeth iddynt mewn 37 y cant o achosion
- nid oedd staff cyswllt dioddefwyr yn gysylltiedig â MAPPA mewn 51 y cant o achosion pan ddylent fod wedi gwneud hynny
- nid oedd dioddefwyr yn cael eu hysbysu ynglŷn ag amodau trwydded dim-cyswllt mewn 34 y cant o achosion lle gwnaed y rhain.

# Pennod 5: Ailsefydlu

## Cyflwyniad

Mae goruchwylio pobl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar wedi bod yn rhan o rôl y gwasanaeth prawf ers diwedd y 1960au, ac mae achosion cyn ac ar ôl rhyddhau yn cynrychioli'r mwyafrif o lwyth achosion cyffredinol y gwasanaeth prawf yn awr. Ers cyflwyno *Deddf Adsefydlu Troseddwyr* ym mis Chwefror 2015 a oedd yn datgan y dylai pob troseddwr gyda dedfryd o garchar fod yn destun goruchwyliaeth statudol wrth gael eu rhyddhau o'r carchar, mae gwaith ailsefydlu wedi dod yn gyfran amlycach o'r llwyth achosion prawf. Cyn y dyddiad hwn, dim ond pobl â dedfryd o 12 mis neu hwy oedd yn destun goruchwyliaeth brawf statudol wrth gael eu rhyddhau o'r carchar.

Ar 31 Rhagfyr 2022 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), roedd y llwyth achosion prawf cyffredinol yn cynnwys 112,851 gorchymyn llys, 71,617 o bobl yn y carchar cyn cael eu rhyddhau a 60,910 ar ôl cael eu rhyddhau. Nid yn unig y mae'r nifer o bobl sy'n cael eu goruchwylio ar drwydded ar ôl cael eu rhyddhau wedi cynyddu 56 y cant yn ystod y cyfnod hwn o (bron) wyth mlynedd, ond mae'r garfan ailsefydlu yn cynrychioli chwarter (25.3 y cant) o'r llwyth achosion cyffredinol erbyn hyn.

## Beth yw ailsefydliad da?

Er mwyn hyrwyddo arfer gorau, rydym wedi cyhoeddi dau ganllaw ar arfer effeithiol ynglŷn ag ailsefydlu oedolion. Mae'r cyntaf yn trafod rheoli troseddwyr yn y ddalfa cyn eu rhyddhau ac mae'r ail yn trafod ar ôl rhyddhau.

Mae gennym ddisgwyliadau clir ynglŷn â beth yw arfer ailsefydlu da. Mae'r elfennau hollbwysig yn cynnwys:

- gwaith cynllunio cyn rhyddhau gan staff prawf yn y carchardai, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ymarferol (yn ddibynnol ar anghenion unigol, ond mae'r rhain yn cynnwys: llety, dogfennau adnabod a chyfrif banc, hawliadau budd-daliadau ac incwm ar unwaith i fyw arno a mynediad at barhad triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl)
- gwaith cynllunio cyn rhyddhau sy'n mynd i'r afael â risg ac sy'n sicrhau bod cynlluniau rheoli risg ar waith gan gynnwys unrhyw amodau trwydded priodol y dylid eu hesbonio'n drylwyr i'r person cyn eu rhyddhau
- trosglwyddiad cynhwysfawr ac amserol gan staff y carchar i staff prawf yn y gymuned a rhannu gwybodaeth rheoli dedfryd a risg rhwng y systemau carchardai a phrawf
- disgwylir i swyddogion prawf cymunedol oruchwylio pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn unol â'r model goruchwylio achosion ASPIRE a esbonnir yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae staff prawf yn y carchardai hefyd yn cynorthwyo gyda phrosesau parôl a cyrffyw cyfyngu i'r cartref, asesiadau'r System Asesu Troseddwyr cyn ac ar ôl rhyddhau a chyswllt rhwng y carchar a sefydliadau yn y gymuned.

## Canfyddiadau ein harolygiadau lleol


Fel y disgrifiwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn, pan fyddwn yn adolygu goruchwyliaeth achos fel rhan o'n harolygiadau o Unedau Cyflawni Prawf lleol, mae

arolygwyr yn llunio dyfarniadau yn erbyn yr un tri chwestiwn allweddol ym mhob un o'r pedwar cam ym mhroses ASPIRE: asesu, cynllunio goruchwyliaeth, gweithredu/cyflawni hynny, cynllunio ac adolygu cynnydd. Mae'r tri chwestiwn hyn yn ymchwilio i weld a yw'r rheolwr troseddwyr yn effeithiol ym mhob cam o'r broses oruchwylio:

1. ymgysylltu â'r person ar brawf
2. cefnogi eu hymataliad rhag troseddu ac felly lleihau aildroseddu
3. lleihau'r risg o niwed a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Rydym hefyd yn holi cwestiynau penodol ar baratoi ar gyfer rhyddhau a digonolrwydd hyn, Mae **Siart 14** yn dangos dadansoddiad manwl o'r gyfran o achosion lle cyflawnwyd pob un o'r 12 maen prawf i'r lefel a ddisgwylir gan ein safonau cyhoeddedig ar gyfer pobl sy'n cael eu goruchwylio wrth gael eu rhyddhau o'r carchar. Ni chyflawnwyd unrhyw un o elfennau'r broses oruchwylio yn foddhaol mewn 65 y cant a mwy o'r 510 o achosion ar ôl rhyddhau a arolygwyd gennym. Roedd y perfformiad yn arbennig o wael mewn cysylltiad â chadw pobl eraill yn ddiogel, ac ystyriwyd bod nifer fach o'r achosion o safon ddigonol gan ein harolygwyr ym mhob un o'r camau goruchwylio achos: asesiad (dim ond 36 y cant yn ddigonol), cynllunio (44 y cant), gweithredu/cyflawni (37 y cant) ac adolygu (43 y cant).


Siart 14: Cyfran yr achosion a gyflawnwyd i'r lefel ddisgwyliedig ar bob cam o'r gwaith goruchwylio achosion ar gyfer pobl sy'n cael eu goruchwylio wrth gael eu rhyddhau o'r carchar (n = 510 o achosion ar ôl rhyddhau)




[Assessment] Asesiad [Planning] Cynllunio [Implementation..] Gweithrediad a Chyflawniad [Reviewing] Adolygu [Engagement] Ymgysylltiad [Desistance] Ymataliad [Risk..] Risg o Niwed

Mae **Siart 15** isod yn dangos a gyflawnwyd gwasanaethau ailsefydlu digonol i fynd i'r afael ag ystod o anghenion penodol, pan oedd y rhain yn berthnasol. Cyflawnwyd gwasanaethau digonol yn y mwyafrif o achosion pan llety oedd yr angen a nodwyd (74 y cant). Cyflawnwyd gwasanaethau digonol i lai na dau o bob pump o bobl yr oedd eu hanghenion yn ymwneud ag iechyd meddwl neu gam-drin domestig (y ddau yn 38 y cant), a oedd yn gymhleth (36 y cant) neu'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol (31 y cant).

Siart 15: Cyflawni gwasanaethau ailsefydlu penodol yn ddigonol




[Complex..] Anghenion cymhleth [Mental..] Anghenion iechyd meddwl [Drugs...] Anghenion camddefnyddio cyffuriau [Alcohol..] Anghenion camddefnyddio alcohol [Needs...] Anghenion fel dioddefwr cam-drin domestig [Personal...] Anghenion personol, perthnasoedd a chymunedol [Finance...] Anghenion cyllid, budd-daliadau a dyled [ETE..] Anghenion Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg [Accommodation...] Anghenion llety [No] Na [Yes] Ie

## Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa

Yn ogystal â'n harolygiadau lleol, buom yn cynnal arolygiad thematig manwl i'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Dechreuodd y gwaith o gyflwyno model OMiC yn 2018 ond cafodd ei oedi'n sylweddol oherwydd y pandemig Covid ac ni chyrhaeddodd yr ystâd carchardai gyfan hyd at 2021. Mae wedi cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau carchardai a phrawf, gan gynnwys 2500 o swyddogion carchardai ychwanegol i ddarparu'r model gweithiwr allweddol a 1000 o swyddogion prawf yn y carchardai – gan gynnwys 200 o uwch swyddogion prawf. Mae'r model hwn yn berthnasol i garcharorion sydd â mwy na 10 mis ar ôl i'w cyflawni yn y ddalfa ar y pwynt dedfrydu. Mae'n ceisio gwella'r cymorth a gynigir i garcharorion wrth iddynt adael y ddalfa a chael eu hailintegreiddio yn y gymuned leol, er mwyn lleihau eu risg o aildroseddu. Mae trefniadau gwahanol yn berthnasol i garcharorion ar ddedfrydau byr neu sydd ar remand. (Gweler Atodiad 3 am ddisgrifiad manwl o'r broses Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa).

Fe wnaethom archwilio'r gwaith ailsefydlu cyn ac ar ôl rhyddhau a wnaed mewn 100 o achosion. O'r 100 a arolygwyd yn y ddalfa (cyn rhyddhau), arolygwyd 96 mewn manylder hyd at naw mis ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa (ar ôl cael eu rhyddhau). Cafodd pedwar achos eu heithrio o'r sampl cymunedol am nad oeddent wedi'u rhyddhau o'r carchar. Cynhaliwyd y gwaith archwilio cyn rhyddhau ar y cyd gyda'n cydweithwyr yn Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Fe wnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau mewn dwy gyfrol, yn canolbwyntio ar waith yn y ddalfa yn ein cyhoeddiad cyntaf a gyhoeddwyd ym mis

Tachwedd 2022, ac ar waith ar ôl rhyddhau yn ein hail gyhoeddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

### Rheoli Troseddwyr yn y ddalfa cyn eu rhyddhau

Prif ganfyddiad ein harolygiad ar y cyd i waith cyn rhyddhau oedd bod Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) yn broses hirfaith a chymhleth, ac yn broses nad yw'r swyddogion carchardai a phrawf, na'r carcharorion eu hunain yn deall yn llwyr sut i'w gweithredu. Daethom i'r casgliad bod OMiC yn fodel sefydlog na ellir ei newid i addasu i wahanol fathau o garchardai. Mae hyn yn ei gwneud yn arbennig o anodd i sefydliadau lleol, lle mae ganddynt drosiant uchel o garcharorion.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, canfuom fod trosglwyddo uwch swyddogion prawf i garchardai wedi helpu i wella'r prosesau cyfathrebu a datblygu diwylliannau adsefydlu.  Fodd bynnag, canfu ein harolygwyr nad oedd rôl brawf Rheolwyr Troseddwyr Carchar (POM) mewn carchardai bob amser yn ychwanegu'r gwerth a fwriadwyd o dan y model, a nodwyd anawsterau sylweddol gyda'r broses drosglwyddo.  Nid yw POM a rheolwyr bob amser yn sicr o'r gofynion asesu trosglwyddiad, ac nid oedd POM bob amser yn paratoi carcharorion unigol bob amser i weithio gyda Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol (COM).  Er i bron i 800 o swyddogion prawf gael eu trosglwyddo i rolau POM mewn carchardai, ychydig iawn o werth ychwanegol a ganfu ein harolygwyr yn y swyddi hyn, yn arbennig mewn carchardai lleol. Ychydig iawn o gysylltiad uniongyrchol oedd gan y rhan fwyaf o POM â charcharorion ac nid oeddent yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y model OMiC.

Yn yr un modd, dim ond mewn 34 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym y cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr achos swyddogion prawf a charcharorion, a dim ond nifer ychydig yn uwch (36 y cant) yr ystyriwyd eu bod wedi'u goruchwylio'n effeithiol gan eu swyddog prawf yn y carchar.

Roedd yr arolygwyr hefyd yn siomedig o ganfod bod y prosesau cyfathrebu rhwng staff carchardai a staff prawf yn ddigonol mewn dim ond un o bob wyth o achosion (13 y cant).

Yn gyffredinol, y prif feysydd o bryder ynglŷn â Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa oedd:

- Roedd gwendidau yn y gwaith diogelu'r cyhoedd, rhannu gwybodaeth a meithrin perthnasoedd rhwng staff carchardai, gweithwyr prawf a charcharorion.
- Roedd diwylliant amlwg o ddau sefydliad, un carchardai ac un prawf, a chafodd y cydweithio ar lefel strategol a gweithredol ei lesteirio gan y ffaith bod grwpiau carchardai a rhanbarthau prawf wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol gwahanol.
- Roedd rhai gweithwyr allweddol yn darparu cymorth gwerthfawr, ond nid oedd anghenion carcharorion mewn gwahanol fathau o sefydliadau bob amser yn cael eu cyflawni, ac roedd hyn yn achosi problemau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- Roedd rhai carcharorion yn cael eu rhyddhau heb drefnu bod gwasanaethau ailsefydlu ar waith; mae ail-uno'r gwasanaeth prawf a'r pandemig Covid-19 wedi dwysáu'r sefyllfa hon.
- Mae gweithredu OMiC yn llwyddiannus yn galw am 'ddiwylliant adsefydlu' mewn carchardai a gofod ar esgyll carchardai ar gyfer ymyriadau un i un gyda charcharorion er mwyn hybu eu hadsefydliad.  Nid yw'r naill na'r llall ar waith yn y rhan fwyaf o sefydliadau.
- Roedd prinder staff yn uchel mewn rhanbarthau, gyda rhai POM prawf yn cynnal llwyth achosion o 100 a mwy a dim ond tair o'r wyth uned rheoli troseddwyr sydd â'r nifer digonol o staff. Roedd swyddogion prawf yn y gymuned wedi'u gorlethu â gwaith i allu cyflawni eu rhwymedigaethau i'r rhai a oedd yn parhau i fod yn y ddalfa,

a oedd yn aml yn gorfod aros eu tro.  Roedd hyn yn tanseilio'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

- Nid oedd gwaith allweddol swyddogion carchardai yn cydlynu â'r gwaith rheoli troseddwyr prawf yn ddigon aml.

Yn gyffredinol, daeth y tîm arolygu ar y cyd i'r casgliad, er bod uchelgeisiau OMiC yn ddymunol, roedd yn profi'n amhosibl bron rhoi'r ddamcaniaeth ar waith. Daethom i'r casgliad nad oedd hanfodion y model yn cael eu darparu ac argymhellwyd bod HMPPS yn adolygu ac yn ailwampio OMiC cyn gynted â phosibl.

## Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ar ôl eu rhyddhau

Datgelodd ail ran ein harolygiad berfformiad gwael hefyd.  Fe wnaethom olrhain yr un garfan o garcharorion am hyd at naw mis ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar yn ystod yr hydref 2022, gan edrych ar y cymorth a oedd wedi'i drefnu (er enghraifft tai), gwasanaethau i atal aildroseddu, dadansoddi'r risg o niwed difrifol, a lefelau staffio a llwyth gwaith y gwasanaethau carchardai a phrawf a oedd yn gweithredu'r model OMiC.

Amlygodd ein harolygiad y prinder staff sylweddol yr ydym wedi'u trafod yn helaeth yn yr adroddiad blynyddol hwn.  Canfu'r arolygwyr bod y diffyg staff yn golygu nad oedd gan lawer o ymarferwyr y gallu i ymgymryd â gwaith strwythuredig sy'n canolbwyntio ar droseddu gyda'r rhai sy'n gadael y carchar.

Canfu'r arolygwyr fod diffyg cyfatebiaeth rhwng y Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir i gefnogi'r rhai a oedd yn gadael y carchar a'r rhai a ddarparwyd. Er enghraifft, roedd gwasanaethau llety wedi'u gordanysgrifio, gan arwain at restrau aros hir, ond nid oedd digon o geisiadau am wasanaethau eraill, megis lles personol.

Roedd llawer o ymarferwyr o'r farn bod y prosesau atgyfeirio yn gymhleth.  Nid oedd prosesau digidol a oedd newydd gael eu sefydlu yn cael eu deall yn dda ac roedd ymarferwyr prawf a darparwyr gwasanaeth yn aml yn llunio gwahanol asesiadau o lefel cymhlethdod anghenion yr unigolyn ar brawf a'r canlyniadau sy'n ofynnol o'r ymyriad gan y gwasanaeth.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r unigolyn ar brawf gan DWRM, yr ymgynghorydd profiad byw a siaradodd ar ein rhan gyda 53 o bobl ar brawf ynglŷn â'u profiadau o gael eu cefnogi ar ôl cael eu rhyddhau. Roeddynt yn dweud bod pobl ar brawf wedi profi'r ddarpariaeth brawf ar ôl cael eu rhyddhau ar drwydded fel proses 'un ffordd'.  Fel gyda gwaith cyn rhyddhau, roeddynt o'r farn bod y gwaith rheoli dedfryd yn cael ei wneud 'iddynt' yn hytrach na'i 'wneud gyda hwy'.  Yn llawer rhy aml, nid oedd ymarferwyr wedi gallu sefydlu perthynas waith dda gyda'r unigolyn ar brawf, ac yna roeddynt wedi gorfod rhoi newyddion negyddol ynglŷn â chyfyngiadau'r drwydded a fyddai'n ofynnol yn iawn.  Nid oedd y rhesymau dros y cyfyngiadau hyn yn cael eu hesbonio'n llawn i'r unigolyn ar brawf, na'u deall ganddynt.

Canfu DWRM gytundeb cyffredinol ymhlith y bobl yr ymgynghorwyd â hwy y gellid bod wedi gwneud llawer mwy cyn eu rhyddhau.  Dywedodd nifer o bobl eu bod ond wedi cael gwybod am amodau eu trwydded wrth iddynt adael y carchar, a dywedodd rhai hefyd eu bod wedi gadael y carchar heb ddogfennau adnabod neu gyfrif banc wedi'i sefydlu.

Dywedodd pobl ar drwydded wrth DWRM y byddent wedi gallu derbyn a chydymffurfio'n well â'r amodau a bennwyd ar gyfer eu rhyddhau pe byddent wedi'u hesbonio'n ddigon cynnar yn eu dedfryd er mwyn gallu eu hymgorffori yn eu cynlluniau dedfryd a rhyddhau.

Dywedodd nifer o bobl y byddent wedi hoffi mwy o eglurder ynglŷn â sut i gydymffurfio ag amodau eu trwydded, a oedd yn eu barn hwy yn amwys ac yn agored i ddehongliad.  Fe wnaethant bwysleisio eu bod yn awyddus i gydymffurfio ac nad oeddent eisiau creu helynt, ond eu bod yn ansicr ynglŷn â'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud.

Ar nodyn cadarnhaol, canfu'r arolygwyr lefelau ymgysylltu da yn gyffredinol gyda phobl ar brawf.  Roedd llawer o Reolwyr Troseddwyr Cymunedol wedi mabwysiadu agwedd gefnogol, wedi'i chadarnhau gan gyswllt rheolaidd ac wythnosol yn aml.  Cymerwyd camau gorfodi priodol pan nad oedd unigolion yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cyhoeddi llythyrau rhybuddio rheolwyr, ac roedd y rhain yn aml yn gweithio'n dda i ailgysylltu'r person ar brawf a sicrhau cydymffurfiaeth â'u trwydded.

Fodd bynnag, roedd canlyniadau ein carfan o 96 o bobl a ryddhawyd o'r carchar yn siomedig:

- Dim ond pedwar o'r 10 unigolyn a oedd yn gadael y carchar yn y sampl o achosion a oedd wedi symud i lety sefydlog ar ôl cael eu rhyddhau, a dim ond wyth y cant ohonynt aeth i gyflogaeth llawn amser neu ran amser.  Gwnaed rhywfaint o welliannau yn y misoedd cyntaf ar drwydded, er, ar y pwynt arolygu, roedd bron i dri o bob 10 o'r rhai a oedd wedi gadael y carchar (29 y cant o'r rhai yr oedd eu canlyniadau yn hysbys) yn parhau i fod mewn llety dros dro, ac roedd bron i bedwar o bob 10 yn ddi-waith.
- Ni wnaed digon o welliannau yn y ffactorau eraill a oedd yn ymwneud fwyaf ag aildroseddu. Dim ond mewn nifer fach o achosion y gwnaed cynnydd digonol o ran ffordd o fyw (27 y cant), camddefnyddio alcohol (20 y cant), teulu a pherthnasoedd (23 y cant), camddefnyddio cyffuriau (24 y cant) ac agweddau at droseddu (25 y cant).
- Gwnaed gwelliannau i'r ffactorau allweddol a oedd yn gysylltiedig â rheoli'r risgiau o niwed i bobl eraill mewn llai na hanner yr achosion.
- Roedd diffyg sylweddol yn y wybodaeth a dderbyniwyd gan asiantaethau eraill, megis cudd-wybodaeth yr heddlu, ac mewn ymholiadau cam-drin domestig a diogelu plant, i gadw pobl eraill yn ddiogel. Cafodd ymarferwyr anawsterau wrth gael ymatebion i'w ceisiadau am y wybodaeth hon, ac mewn rhai achosion roeddent wedi rhoi'r gorau i geisio.
- Nid oedd rhai ymarferwyr yn arfer y chwilfrydedd proffesiynol sydd ei angen i ddeall amgylchiadau personol y person ar brawf yn llawn.  Roedd hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn gwybod pwy oedd mewn risg o niwed.  Canfu'r arolygwyr rai achosion pan oedd yr ymarferydd wedi tanamcangyfrif lefel y risg neu wedi ei lleihau yn rhy gyflym ar ôl i'r unigolyn ar brawf gael ei ryddhau o'r ddalfa.
- O ganlyniad i'r holl ffactorau hyn, roedd y cyfraddau adalw yn uchel, gyda 30 y cant o'r sampl o achosion yn cael eu hadalw i'r ddalfa o fewn naw mis ar ôl cael eu rhyddhau.  Y prif reswm dros adalw oedd diffyg cydymffurfiaeth ag amodau trwydded, ac roedd hyn yn deillio'n bennaf o ddigartrefedd a/neu ddychwelyd i gamddefnyddio sylweddau. Roedd diffyg parhad gofal cyn ac ar ôl rhyddhau, a oedd yn golygu nad oedd y rhai sy'n gadael y carchar yn gallu cael mynediad i'r lefelau cywir o gefnogaeth i gefnogi eu hailsefydliad.

O ystyried yr anawsterau a brofwyd yn ceisio dod o hyd i lety ar ôl rhyddhau o'r carchar, ystyriwyd bod argaeledd gwasanaethau llety cymunedol newydd (a elwir yn CAS3) yn cael eu cyflwyno ledled y wlad yn ddatblygiad cadarnhaol iawn.  Roedd niferoedd adalw yn is yn

y rhanbarthau hynny gyda'r rhaglen hon, er y dylid nodi bod y llety â chymorth dros dro sydd ar gael o dan y cynllun hwn ond yn para am uchafswm o 12 wythnos.

## Casgliad

Gyda 130,000 a mwy o bobl yn y llwyth achosion prawf naill ai mewn carchardai neu'n cael eu rheoli ar ôl eu rhyddhau, mae'n hollbwysig bod ansawdd y cymorth a'r oruchwyliaeth a gynigir i'r grŵp hwn yn ddigonol.  Fodd bynnag, mae ein harolygiadau a'n gwaith thematig lleol wedi dangos mewn gormod o achosion nad yw hyn yn digwydd ac y gallai'r gwaith ailsefydlu fod wedi gwaethygu hyd yn oed ers yr ail-uno.  Yn y flwyddyn cyn ail-uno roedd arwyddion calonogol bod y buddsoddiad ychwanegol drwy'r trefniadau cyllido Trwy'r Giât Gwell (ETTG) yn helpu i wella perfformiad.  Fe wnaethom arolygu 10 Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn 2020 a rhoddwyd sgôr 'Rhagorol' am waith Drwy'r Giât mewn wyth o'r ardaloedd hyn a 'Da' yn y ddwy arall.  Fodd bynnag, cafodd y timau ymroddedig Drwy'r Giât hyn a'r contractau gyda darparwyr allanol ar gyfer mentora, Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg a gwasanaethau eraill eu diddymu yn ystod y gwaith o ail-strwythuro'r Gwasanaeth Prawf ar ôl ei ail-uno ac, fel y gwelwn, mae'n ymddangos bod perfformiad presennol y trefniadau ailsefydlu yn is o lawer.

# Atodiad 1: Arolygiadau o wasanaethau

## Y broses arolygu

Mae ein dull o arolygu'r Gwasanaeth Prawf yn cynnwys tair agwedd:

**Adolygiad rhanbarthol**

Diben yr adolygiad rhanbarthol yw dadansoddi swyddogaeth y rhanbarth a nodi galluogwyr a rhwystrau rhanbarthol sy'n galluogi neu'n rhwystro'r Uned Cyflawni Prawf i gyflawni ein safonau arolygu.

**Cyflawni sefydliadol yr Unedau Cyflawni Prawf (maes un)**

Yn y maes hwn rydym yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, pobl, gwasanaethau a gwybodaeth a chyfleusterau. Cyn i ni archwilio'r Unedau Cyflawni Prawf, rydym, yn edrych ar unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd, nodi unrhyw fylchau neu feysydd sy'n galw am eglurhad. Wrth gynnal y gwaith maes rydym yn cynnal cyfarfodydd a grwpiau ffocws lle gellir casglu tystiolaeth bellach, a'n galluogi i driongli tystiolaeth a gwybodaeth.

**Goruchwylio achosion Unedau Cyflawni Prawf (maes dau)**

Cyn cynnal y gwaith maes, rydym yn nodi carfan o achosion gan ddefnyddio meini prawf penodol. Pan fyddwn ar y safle rydym yn edrych ar yr achosion hynny a ddewiswyd ac yn asesu ansawdd yr ymarfer. Mewn achosion perthnasol, rydym hefyd yn edrych ar ansawdd yr adroddiad cyn dedfrydu, y gwaith cyn rhyddhau a wneir gan reolwr troseddwyr cymunedol, a'r cyswllt statudol gyda'r dioddefwr.


Mae ein harolygwyr yn defnyddio cyfres o safonau cyhoeddedig i holi'r cwestiynau cywir ac edrych am dystiolaeth i sgorio ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gyflenwi ar draws pob agwedd o wasanaeth. Gallwch weld (a lawrlwytho) ein safonau prawf yma.

Mae pob gwasanaeth yn derbyn sgôr gyffredinol o 'Rhagorol', 'Da', 'Angen gwella' neu 'Annigonol' yn ogystal â sgôr ar lefel safonau unigol. Defnyddiwn y dull hwn i gynorthwyo gwasanaethau i dargedu eu gweithgarwch gwella. Mae ein hadroddiadau yn esbonio'n glir pam ein bod wedi rhoi sgôr benodol i wasanaethau.

## Model goruchwylio achosion ASPIRE

Mae ymarfer prawf cyfoes yn seiliedig ar fodel goruchwylio achosion ASPIRE (Asesu; Cynllunio Dedfryd; Gweithredu; Adolygu a Gwerthuso). Yn ein harolygiadau lleol, rydym yn barnu ansawdd cyflenwi mewn achosion unigol yn erbyn y broses ASPIRE hon.

Fel y nodir yn y ffigur isod, mae'r broses yn un gylchol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth ymchwil bod ymataliad fel arfer yn broses raddol, anlinellol ac aml-ddimensiwn, a bod angen ystyried yn ofalus sut i ddelio ag achosion o atgwympo. Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi pwysleisio pwysigrwydd pob un o'r pedwar cam ym mhroses ASPIRE sy'n galw am gydweithrediad a chyd-gynhyrchiant gwirioneddol.




Pan fyddwn yn adolygu goruchwyliaeth achosion fel rhan o'n harolygiadau o Unedau Cyflawni Prawf lleol, mae arolygwyr yn llunio barn yn erbyn yr un tri chwestiwn ym mhob un o bedwar cam y broses ASPIRE - asesu, cynllunio goruchwyliaeth, gweithredu a chyflawni'r cynllun hwnnw ac adolygu cynnydd. Mae'r tri chwestiwn hyn yn ymchwilio a yw rheolwr y troseddwr, ar bob cam o'r broses oruchwylio yn cyflawni'r canlynol yn effeithiol:

1. Ymgysylltu â'r person ar brawf;
2. Cefnogi eu hymataliad wrth droseddau ac felly lleihau aildroseddu; a
3. Lleihau'r risg o niwed a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Rydym yn dadansoddi'r holl achosion yn ein sampl o Unedau gan ddefnyddio'r tri chwestiwn hyn ar bob un o'r pedwar cam goruchwylio achosion. Mae hyn yn creu cyfanswm o 12 cwestiwn allweddol sy'n cyfrannu at y sgôr ar gyfer pob safon. Er mwyn i asesiad achos dderbyn sgôr 'Rhagorol' mae'n rhaid i achosion gael eu graddio'n foddhaol ar gyfer pob un o'r tri chwestiwn allweddol ar y safon honno. Bydd Uned yn derbyn sgôr 'Da' yn erbyn safon pan fydd mwyafrif rhesymol o achosion (65 i 79 y cant) yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer pob un o'r tri chwestiwn allweddol ar gyfer y safon honno; 'Angen gwella' pan fydd dim ond 50 i 64 yn pasio; ac yn 'Annigonol' pan fydd lleiafrif (llai na 50 y cant) yn cyflawni'r maen prawf. I weld esboniad manylach gweler ein canllaw canllawiau arolygu <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2023/01/Probation-Inspection-Manual-External.pdf>.

## Y sgorau

Yn 2022/2023, fe wnaethom arolygu 31 Uned Cyflawni Prawf a gallwch weld manylion pob un o'r naw maes allweddol a'r sgorau cyffredinol yn y tabl isod. Dim ond un Uned (De Tyneside a Gateshead) a dderbyniodd sgôr 'Da'; derbyniodd 15 Uned sgôr 'Angen Gwella' a derbyniodd y 15 sy'n weddill sgôr 'Annigonol'.

Mae'r siart isod yn rhyngweithiol. Drwy glicio ar unrhyw Uned Cyflawni Prawf, gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn a hefyd gweld data'r arolygiad cysylltiedig mewn manylder.

# Sgorau arolygu Unedau Cyflawni Prawf

☆ Rhagorol (3) ● Da (2)

● Angen Gwella (1) ● Annigonol(0)

| Unedau Cyflawni Prawf (UCP) a arolygwyd | Sgôr gyffredinol | Cyhoeddwyd | Sgôr gyfansawdd (allan o 27) | 1. Cyflenwi sefydliadol | | | | 2. Gwaith llys a goruchwylio achosion | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1.1 Arweinyddiaeth | 1.2 Staff | 1.3 Gwasanaethau | 1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau | 2.1 Gwaith llys | 2.2 Asesu | 2.3 Cynllunio | 2.4 Gweithredu a chyflawni | 2.5 Adolygu | 2.6 Canlyniadau | Adroddiad Llawn |
| **UCP De Tyneside a Gateshead** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr) | Da | 22/12/2022 | 15 | Da | Da | Angen Gwella | Angen Gwella | Rhagorol | Da | Da | Angen Gwella | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Dinas Derby** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr) | Angen Gwella | 09/02/2023 | 11 | Angen Gwella | Da | Da | Da | Angen Gwella | Annigonol | Angen Gwella | Angen Gwella | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Blackburn** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr) | Angen Gwella | 01/06/2023 | 10 | Angen Gwella | Da | Angen Gwella | Angen Gwella | Annigonol | Angen Gwella | Da | Angen Gwella | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gogledd Manceinion** (Gwasanaeth Prawf rhanbarth Manceinion Fwyaf) | Angen Gwella | 25/05/2023 | 10 | Angen Gwella | Da | Da | Da | Ddim yn berthnasol | Annigonol | Angen Gwella | Angen Gwella | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Swydd Northampton** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Dwyrain Lloegr) | Angen Gwella | 17/05/2022 | 9 | Angen Gwella | Angen Gwella | Annigonol | Angen Gwella | Rhagorol | Angen Gwella | Angen Gwella | Annigonol | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gogledd a Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln** (Gwasanaeth Prawf - rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber) | Angen Gwella | 30/03/2023 | 9 | Angen Gwella | Da | Angen Gwella | Da | Annigonol | Annigonol | Angen Gwella | Angen Gwella | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Redcar, Cleveland a Middlesbrough** (Gwasanaeth Prawf- rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr) | Angen Gwella | 23/12/2022 | 8 | Angen Gwella | Da | Angen Gwella | Da | Ddim yn berthnasol | Annigonol | Angen Gwella | Annigonol | Angen Gwella | Dim ymateb | Adroddiad |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **UCP Gorllewin Swydd Gaer** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr) | 🟠 | 01/06/2023 | 7 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | Dim ymateb | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Hull a Dwyrain Riding Swydd Efrog** (Gwasanaeth Prawf - rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber) | 🟠 | 30/03/2023 | 7 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Tameside** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Manceinion Fwyaf) | 🟠 | 25/05/2023 | 7 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Swydd Warwig** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr) | 🟠 | 18/08/2022 | 7 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Wigan** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Manceinion Fwyaf) | 🟠 | 25/05/2023 | 7 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Cumbria** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr) | 🟠 | 13/07/2023 | 6 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gwent** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru) | 🟠 | 03/02/2022 | 6 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | ☆ | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Newham** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain) | 🟠 | 24/11/2022 | 6 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | Ddim yn berthnasol | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Barking, Dagenham a Havering** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain) | 🟠 | 24/11/2022 | 5 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | Ddim yn berthnasol | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Kirklees** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber) | 🔴 | 30/03/2023 | 4 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🟢 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Lewisham a Bromley** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain) | 🔴 | 24/11/2022 | 4 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | Ddim yn berthnasol | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gogledd Lerpwl** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr) | 🔴 | 29/06/2023 | 4 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | Dim ymateb | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Abertawe Castell-nedd Port Talbot** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru) | 🔴 | 20/01/2022 | 4 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **UCP Gorllewin Sussex** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Caint, Surrey a Sussex) | 🔴 | 11/05/2022 | 4 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Ealing a Hillingdon** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain) | 🔴 | 18/10/2022 | 3 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Lambeth** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain) | 🔴 | 18/10/2022 | 3 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | Ddim yn berthnasol | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gogledd a Dwyrain Birmingham a Solihull** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr) | 🔴 | 18/08/2022 | 2 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Knowsley a St Helens** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr) | 🔴 | 18/10/2022 | 2 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | Dim ymateb | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Caerlŷr, Swydd Gaerlŷr a Rutland** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr) | 🔴 | 09/02/2023 | 2 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Swydd Stafford a Stoke** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr) | 🔴 | 04/08/2022 | 2 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gogledd Essex** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Dwyrain Lloegr) | 🔴 | 17/05/2022 | 1 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Sheffield** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Swydd Efrog a'r Humber) | 🔴 | 30/03/2023 | 1 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Gorllewin Caint** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Caint, Surrey a Sussex) | 🔴 | 11/05/2022 | 1 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |
| **UCP Hammersmith, Fulham, Kensington, Chelsea a Westminster** (Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Llundain) | 🔴 | 18/10/2022 | 0 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | Dim ymateb | Adroddiad |

# Atodiad 2: Cyhoeddiadau

Yn yr Atodiad hwn, rydym yn cynnwys manylion pob cyhoeddiad sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn, gan gynnwys dolenni i'w darllen a/neu eu lawrlwytho.

## Arolygiadau thematig

- The impact of the Covid-19 pandemic on the criminal justice system – a progress report
- Twenty years on, is MAPPA achieving its objectives? A joint thematic inspection of Multi-Agency Public Protection Arrangements
- A joint thematic inspection of Offender Management in Custody – pre-release
- A thematic inspection of Offender Management in Custody – post-release
- A thematic inspection of work undertaken, and progress made, by the Probation Service to reduce the incidence of domestic abuse and protect victims
- Counter Terrorism Joint Inspection – National security division and multi-agency arrangements for the management of terrorist offenders in the wake of terrorist attacks
- Race equality in probation follow-up: a work in progress

## Troseddau Difrifol Pellach

- Annual report 2023: Serious Further Offences
- Independent serious further offence review of Damien Bendall
- Independent Serious Further Offence review of Jordan McSweeney

## Mewnwelediadau Academaidd

- A tripartite strategy for unpaid work in the community
- The Risk-Need-Responsivity model: 1990 to the Present
- Ethical humility in probation
- Growth and the core conditions of transformative change
- Effective practice in Resettlement
- Older people on probation
- Professionalism in Probation
- Desistance, recovery, and justice capital: Putting it all together
- Using attachment theory in probation practice
- Putting professional curiosity into practice
- Systemic Resilience
- Transitional Safeguarding
- Refining processes in policy and practice in working with people accused or convicted of a sexual offence

## Bwletinau Ymchwil a Dadansoddi

- Probation staff experiences of working with people at risk of suicide and/or self-harm
- Working with trauma in adult probation
- The role of engagement for positive outcomes
- Examining the links between probation supervision and positive outcomes – early progress
- Examining the links between probation supervision and positive outcomes – completion and proven reoffending

## Canllawiau arfer effeithiol

- Working with domestic abuse
- Offender Management in Custody pre-release
- Offender Management in Custody post-release
- Professional curiosity insights (practitioners)
- Professional curiosity insights (middle managers)

# Atodiad 3 – prif brosesau Rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC)

**Y ddalfa**

| 1. Dyrannu achosion |
|---|
| • Mwy na 10 mis i'w cyflawni ar y pwynt dedfrydu – dyrannu rheolwr troseddwyr carchardai (POM) |
| • Ymarferwyr prawf cymwys sy'n gweithio mewn carchardai (POM prawf) yn rheoli carcharorion Haen A a B (risg uchel) |
| • POM Carchardai Band 4 yn rheoli carcharorion Haen C a D (risg canolig ac isel) |

| 2. Rheoli achosion yn y ddalfa |
|---|
| • Pan fyddant yn gyfrifol am yr achos bydd y POM yn cynnal gweithgareddau rheoli perthnasol gyda throseddwyr, gan gynnwys |
| ○ Asesiadau risg y System Asesu Troseddwyr (gan gynnwys ymgysylltiad cychwynnol gyda charcharorion a chwblhau System Asesu Troseddwyr ar Ddechrau'r cyfnod yn y Ddalfa)) |
| ○ Rheoli risg |
| ○ Goruchwyliaeth un i un |
| ○ Amser ymgysylltu ychwanegol gyda charcharorion cymwys yn yr ystâd menywod |
| ○ Cyfarfodydd cynllunio dedfrydau |
| ○ Unrhyw waith sy'n gysylltiedig â MAPPA, Llwybr Anhwylder Personoliaeth Carcharor (OPDP), Parôl, categoreiddio diogelwch a Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (RoTL) |

**Cyn rhyddhau**

| 3. POM yn trosglwyddo i'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol (COM) |
|---|
| • Dau fath o drosglwyddiad: uwch a safonol |
| • Pob trosglwyddiad uwch: |
| ○ POM yn cwblhau system asesu troseddwr cyn trosglwyddo |
| ○ Cyfarfod trosglwyddo POM – COM (a fynychir gan y carcharor, POM, COM a'r gweithiwr allweddol) – ar gyfer achosion Anhwylder Personoliaeth Carcharor mae'n bosibl y bydd seicolegydd yn mynychu hefyd) |
| • Trosglwyddiad uwch: ar gyfer pennu safon |
| ○ Carfan = risg uchel o niwed difrifol, risg uchel o atgwympo, cymwys ar gyfer MAPPA |
| ○ COM yn cymryd cyfrifoldeb wyth mis a hanner cyn y dyddiad rhyddhau cynharaf |
| • Trosglwyddiad uwch – achosion sy'n gymwys ar gyfer parôl: |
| ○ COM yn cymryd cyfrifoldeb wyth mis cyn y dyddiad cymwys ar gyfer parôl |
| ○ COM yn parhau i fod yn gyfrifol ar gyfer hyd y ddedfryd |
| • Trosglwyddiad uwch – carcharorion cyfnod amhenodol (ISP) |
| ○ COM yn cymryd cyfrifoldeb wyth mis cyn dyddiad diwedd y tariff (TED) |

- COM yn parhau i fod yn gyfrifol ar gyfer hyd y ddedfryd os bydd yr adolygiad parôl wedi'i bennu ar 12 mis neu lai, neu lefel 2/3 MAPPA 2/3, neu bydd y POM yn parhau i fod yn gyfrifol.

- Trosglwyddiad uwch – dyraniad cynnar
    - COM yn cymryd cyfrifoldeb 15 mis cyn y dyddiad rhyddhau cynharaf
    - Ymhlith yr enghreifftiau mae MAPPA lefel 3, diogelwch critigol i'r cyhoedd ac achosion TACT (y Ddeddf Terfysgaeth)
- Trosglwyddiad safonol:
    - Carfan = pob carcharor arall sydd wedi'u dedfrydu
    - POM yn cwblhau'r adroddiad trosglwyddo
    - Dim cyfarfod ffurfiol POM – COM

## 4. Gweithgareddau COM cyn rhyddhau

- Trosglwyddiad uwch:
    - Cwblhau OYS cyn rhyddhau
    - Sgrinio cychwynnol MAPPA
    - Mynychu cyfarfod MAPPA
    - Atgyfeiriad eiddo cymeradwy
    - Adroddiad parôl
- Trosglwyddiad Uwch a Safonol:
    - Penderfynu ar amodau trwydded
    - Cysylltu â'r POM
    - Adolygu'r achos ac ymgysylltu â'r carcharor
    - Asesiad addasrwydd cartref Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (os bydd angen)
    - Ystyried atgyfeiriad/ail-atgyfeiriad Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM)
    - Mynychu gwrandawiad llafar
    - Adroddiadau adalw a chyfarfod adalw 3 ffordd yn dilyn adalw
    - Sgrinio a chreu Anhwylder Personoliaeth Carcharor
    - Cysylltu â Swyddog Cyswllt Dioddefwyr

## 5. Staff carchardai cyn rhyddhau

- Cyfrifoldebau'r Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol (COM) yn cynnwys cysylltu â staff cyn rhyddhau i:
    - Caffael manylion yr asesiadau a gwblhawyd a'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd
    - Cytuno ar gamau gweithredu gyda'r staff prawf cyn rhyddhau
    - Atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynir (CRS)

# Atodiad 4 – Data cyfanredol

Drwy ddilyn y ddolen isod gallwch fynd i'n prif daenlen, sy'n cynnwys y data cyfanredol o bob arolygiad o Unedau Cyflawni Prawf. Rydym yn darparu'r wybodaeth hon i'r cyhoedd am y tro cyntaf erioed drwy'r adroddiad blynyddol hwn.

Atodiad data cyfanredol Unedau Cyflawni Prawf yr adroddiad blynyddol.